


Briff Ymchwil

# Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yng Nghymru


Awdur: **Michael Dauncey**



Dyddiad: **Tachwedd 2016**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

---

Awdur: **Michael Dauncey**
Dyddiad:**Tachwedd 2016**
Rhif Papur: **16-059**
Clawr blaen: **Llun Flickr gan Flickr by H_Elise. Trwydded Creative Commons**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: **0300 200 6293**
: **Michael.Dauncey@Cynulliad.Cymru**
: **Cynulliad.Cymru/Pigion**
: **@SeneddYmchwil**
: **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yng Nghymru

Mae'r papur briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil yn diweddaru papur blaenorol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2015 (AAA/ADY yng Nghymru) ac yn rhoi gwybodaeth gefndir cyn y ddeddfwriaeth y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl ei chyflwyno cyn diwedd 2016. Bydd y Bil arfaethedig yn gosod system ddiwygiedig yn seiliedig ar Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn lle'r fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) presennol.

Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o'r fframwaith AAA presennol, yn esbonio'r darpariaethau a'r prosesau presennol, ac yn olrhain y daith adolygu a diwygio sydd wedi digwydd drwy gydol cryn dipyn o oes y Cynulliad, yn fwyaf diweddar yr ymgynghoriad ar Fil drafft yn 2015. Mae data hefyd wedi'u cynnwys ar nifer y dysgwyr ag AAA/ADY a'u cyflawniad academaidd, ynghyd ag ystadegau ynghylch ariannu.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys


01. Cyflwyniad ........ 1
Beth yw Anghenion Addysgol Arbennig a beth yw'r sefyllfa bresennol? ........ 1
Diwygiadau arfaethedig ........ 2
Amcanion y papur hwn ........ 3
02. Y fframwaith cyfreithiol presennol yng Nghymru ........ 4
Trosolwg o gyfrifoldebau allweddol ........ 4
Darpariaeth raddedig ar gyfer AAA ........ 6
Proses o asesiadau a datganiadau statudol ........ 9
03. Nifer y dysgwyr ag AAA ........ 16
04. Ariannu'r ddarpariaeth AAA ........ 20
Cyllid i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru ........ 20
Trefniadau rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion ........ 20
Ystadegau ynglŷn ag ariannu ........ 21
05. Cyflawniad dysgwyr ag AAA ........ 25
06. Adolygiadau blaenorol a diwygiadau arfaethedig ........ 29
Ymchwiliad teiran gan Bwyllgor yn yr Ail Gynulliad ........ 29
Datblygiadau yn y Trydydd Cynulliad ........ 31
Ymgynghoriad 2012 ........ 32
Asesu ôl-16/darpariaeth ôl-16 a'r Bil Addysg (Cymru) ........ 33
Papur Gwyn 2014 ........ 34
Cynllunio'r gweithlu ........ 35
Y penderfyniad i gyflwyno Bil drafft ........ 35
07. Y Bil drafft ........ 37
Cynigion ar gyfer un fframwaith cyfreithiol rhwng 0 a 25 oed (amcan cyffredinol) ........ 38
Cynigion ar gyfer proses gydweithredol integredig gydag ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol (amcan cyffredinol) ........ 39
Cynigion ar gyfer system deg a thryloyw (amcan cyffredinol) ........ 40
Nodau craidd trawsbynciol ........ 41
Gwaith craffu cyn deddfu gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ........ 42
Ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ........ 44

08. Diwygiadau yn Lloegr ........ 48

Beth sydd wedi newid? ........ 48

Pa effaith y mae'r diwygiadau yn ei chael? ........ 49

Y gwersi i Gymru ........ 49

09. Y camau nesaf ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru ..... 51

Proses ddeddfwriaethol y Cynulliad ........ 52

# 1. Cyflwyniad

Mae'n fwriad ers tro gan lunwyr polisi yng Nghymru i ddeddfu i ddiwygio'r trefniadau presennol ar gyfer canfod Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) plant a phobl ifanc (neu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) fel y cyfeirir atynt fwyfwy, er nad yn gyfreithiol eto), a darparu ar eu cyfer.

Mae rhanddeiliaid, teuluoedd a gofalwyr hefyd wedi rhagweld ac wedi galw am ddiwygio. Yn y Cynulliad diwethaf (2011-2016), cynhaliodd Llywodraeth Cymru dri ymgynghoriad; yn gyntaf ar gynigion amlinellol (2012), yn ail ar Bapur Gwyn (2014) ac yn drydydd ar Fil drafft (2015).

Mae Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Alun Davies AC, yn gyfrifol am bolisi ADY a dwyn y ddeddfwriaeth ymlaen, ond Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams AC, sy'n gyfrifol am oruchwyliaeth yn y pen draw. Mewn **datganiad ar 14 Gorffennaf 2016**, dywedodd y Gweinidog ei fod yn disgwyl **cyflwyno'r Bil cyn diwedd 2016**. Roedd hyn yn dilyn datganiad blaenorol ar **1 Gorffennaf 2016** a aeth law yn llaw â chyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad ar y **Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)**, yn ogystal â chrynodeb Llywodraeth Cymru.

## Beth yw Anghenion Addysgol Arbennig a beth yw'r sefyllfa bresennol?

Mae Adran 312(1) o Ddeddf Addysg 1996 yn nodi bod gan blant Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) os oes ganddynt y canlynol: 'a learning difficulty which calls for special educational provision to be made for [them]'.

O dan adran 312(2), mae gan blentyn **anhawster dysgu**[1] os:

a) yw'n cael **anhawster llawer mwy** yn dysgu na'r **mwyafrif** o blant o'r un oedran;

b) oes ganddo **anabledd** sydd naill ai **yn ei atal neu'n ei rwystro** rhag **defnyddio cyfleusterau addysgol o fath a ddarperir yn gyffredinol** ar gyfer plant o'r un oedran mewn ysgolion yn ardal yr awdurdod lleol; neu

c) yw **o dan oedran addysg orfodol ac yn dod o fewn y diffiniad** a) neu b) neu y byddai pe na bai darpariaeth addysgol arbennig ar gael ar ei gyfer.

Mae adran 312(4) yn nodi mai ystyr **darpariaeth addysgol arbennig** yw:

a) **i blant dwy flwydd oed neu drosodd**, darpariaeth addysgol sy'n **ychwanegol at y ddarpariaeth addysgol** a wneir **fel arfer** ar gyfer plant o'u hoedran mewn ysgolion a gynhelir, ac eithrio ysgolion arbennig, yn yr ardal, **neu sydd fel arall yn wahanol** i'r ddarpariaeth addysgol honno;

b) i blant o dan ddwy flwydd oed, darpariaeth addysgol o unrhyw fath.

[fy mhwyslais i ym mhob achos]

Mae gan oddeutu **un o bob pump** o ddysgwyr mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru AAA. Caiff yr anghenion hyn eu diwallu drwy dri cham graddedig o ymyriad:

- Yn gyntaf, cymorth ychwanegol a roddir gan yr ysgolion eu hunain (***Gweithredu gan yr Ysgol***);
- Yn ail, cymorth ychwanegol gan ysgolion ynghyd ag asiantaethau allanol (***Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy***); ac

---

[1] Nid ystyrir bod gan blentyn anhawster dysgu am fod yr iaith a siaredir gartref yn wahanol i'r iaith y byddant yn cael eu haddysgu drwyddi yn unig.

– Yn drydydd, lle bernir bod angen hynny, yn unol â **datganiad AAA gan awdurdod lleol** sy'n rhoi hawl gyfreithiol i becyn penodedig o gymorth.

(Ceir rhaglenni sy'n cyfateb yn fras i *Gweithredu gan yr Ysgol* a *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy* o fewn y Blynyddoedd Cynnar.)

Yng Nghymru, ceir **105,000** o ddysgwyr y cydnabyddir yn swyddogol bod ganddynt AAA, ac mae gan 12,000 ohonynt ddatganiadau (blwyddyn academaidd 2015/16). **Mae £362 miliwn** wedi'i gyllidebu ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth AAA (blwyddyn ariannol 2015-16).

Bydd AAA fel arfer yn dod o dan o leiaf un o'r pedwar maes cyffredinol canlynol:

– Cyfathrebu a rhyngweithio;

– Gwybyddiaeth a dysgu;

– Ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol;

– Synhwyraidd a/neu gorfforol.

## Diwygiadau arfaethedig

Ers rhai blynyddoedd bellach, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod nad yw'r system bresennol bellach yn addas at y diben.[2] Mae'n credu felly y dylai '**dull gweithredu mwy modern o weithio amlasiantaethol** er budd y plentyn neu'r person ifanc, a fydd yn eu cefnogi yn y daith drwy addysg a'u dewisiadau bywyd' gymryd lle 'model a gyflwynwyd fwy na 30 mlynedd yn ôl'.[3]

Fel y nodwyd yn ystod ei hymgynghoriad ar y Bil drafft yn 2015, mae gan Lywodraeth Cymru **dri amcan cyffredinol** ar gyfer y system arfaethedig newydd:

– **Fframwaith deddfwriaethol unedig** i gynorthwyo plant a phobl ifanc rhwng **0 a 25 oed sydd ag ADY** mewn ysgolion ac mewn addysg bellach *(yn hytrach na'r system AAA bresennol ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 16 oed a'r system Anawsterau a/neu Anableddau Dysgu (AAD) ar gyfer pobl ifanc dros 16 oed, sy'n cael eu cynnwys o dan ddeddfwriaeth wahanol ar hyn o bryd);*

– **Proses integredig a chydweithredol** o asesu, cynllunio a monitro gydag **ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol** *(gan gynnwys dyletswyddau ar fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol i gydweithio â'i gilydd i ddiwallu anghenion pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY drwy baratoi Cynllun Datblygu Unigol)*;

– **System deg a thryloyw** o ddarparu gwybodaeth a chyngor, ac o ymdrin â **phryderon ac achosion o apêl** *(gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i osgoi ac ymdrin ag anghytundebau, gan ddiwygio system a ddisgrifiwyd fel un 'gymhleth, ddryslyd a gwrthwynebol')*.[4]

---

[2]Llywodraeth Cymru, ***Cynigion deddfwriaethol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol,*** Rhagair Gweinidogol (Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau), Mai 2014, t2

[3] Llywodraeth Cymru, ***Ymlaen mewn partneriaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol: Cynigion ar gyfer diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghenion addysgol arbennig,*** Mehefin 2012, t4

[4] Rhestrwyd yr amcanion hyn ym mharagraff 3.3 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil drafft ac fe'u nodwyd yn wreiddiol ym Mhapur Gwyn 2014. Llythrennau italig gan yr awdur hwn.

## Amcanion y papur hwn

Mae'r papur briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil yn amlinellu sut y mae'r **trefniadau cyfredol** ar gyfer canfod a diwallu AAA/ADY plentyn neu berson ifanc[5] yn gweithredu; yn rhoi **data** ar niferoedd, lefelau gwariant a chyflawniad academaidd gan ddysgwyr ag AAA; ac yn esbonio'r **adolygiadau a'r diwygiadau blaenorol** a wnaed drwy gydol cryn dipyn o'r cyfnod ers datganoli. Wrth wneud hynny, bwriad y papur hwn yw cefnogi ac ysgogi dadl a pharatoadau ar gyfer y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) sydd ar y gweill.

[5] Mae'r term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) wedi cael ei fabwysiadu o safbwynt ymarferol a pholisi ers diwygio canllawiau *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* Llywodraeth Cymru yn 2006 i geisio ymgorffori'r cysyniad ADY yn lle Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Felly, defnyddir y termau yn gymharol gydgyfnewidiol yn y papur hwn.

# 2. Y fframwaith cyfreithiol presennol yng Nghymru

Mae'r trefniadau presennol ar gyfer canfod a darparu ar gyfer AAA wedi'u gwreiddio yn *Neddf Addysg 1996* (a oedd yn cydgrynhoi deddfwriaeth flaenorol *Deddf Addysg 1993*) ac yn cael eu nodi'n fanylach yn y Cod Ymarfer AAA ar gyfer Cymru (a gyflwynwyd yn 2002 ac a ddiweddarwyd yn 2004).

Fel un o ofynion y ddeddfwriaeth, paratowyd y Cod Ymarfer cyntaf gan Lywodraeth y DU a daeth i rym ym 1994. Yn sgil datganoli, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd, Jane Davidson, y **Cod Ymarfer AAA cyntaf sy'n benodol i Gymru** ['y Cod' o hyn ymlaen]. Daeth hwn i rym o **1 Ebrill 2002** ac mae'n **dal mewn grym hyd heddiw**.

Mae'r Cod yn amlinellu'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn ar gyfer asesu p'un a oes gan ddysgwr AAA a rhoi ymyriadau ar waith i ymdrin â hwy. Fodd bynnag, mae'r ffordd y caiff anghenion dysgwyr eu canfod ac y darperir ar eu cyfer wedi bod yn newid yn raddol a gellir **dadlau nad yw'r Cod yn hollol gyfredol mwyach**. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys, er enghraifft, defnyddio mwy ar y **cysyniad ehangach o 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' (ADY)**, y disgwylir i'r ddeddfwriaeth arfaethedig roi sail gyfreithiol iddo, a dibynnu llai ar ddatganiadau.

Serch hynny, wrth esbonio'r rhesymau dros oedi o ran cyflwyno deddfwriaeth yn ystod haf 2015 er mwyn caniatáu ar gyfer rhagor o ymgynghori, mynnodd Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, fod y **gofynion cyfreithiol presennol yn parhau** ac atgoffodd awdurdodau lleol am eu cyfrifoldebau. Ailadroddodd hyn mewn gohebiaeth at Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Pedwerydd Cynulliad ym mis Ionawr 2016 (PDF 214KB).

Mae'n **rhaid** i'r asiantaethau perthnasol **roi sylw** i'r Cod ac er y gallant ddewis sut yn union y byddant yn cyflawni eu dyletswyddau statudol, mae'n rhaid iddynt wneud hynny yng ngoleuni'r canllawiau a roddwyd ynddo. Mae'r Cod yn seiliedig ar **bum egwyddor gyffredinol**:

- Dylai anghenion plentyn ag AAA gael eu diwallu;
- Fel rheol caiff anghenion addysgol arbennig plant eu diwallu mewn ysgolion neu sefydliadau prif ffrwd;
- Dylid ceisio barn y plentyn, a'i chymryd i ystyriaeth;
- Mae gan rieni rôl holl bwysig i'w chwarae i gefnogi addysg eu plentyn;
- Dylid cynnig cyfle llawn i blant sydd ag AAA gael addysg eang, gytbwys a pherthnasol.

## Trosolwg o gyfrifoldebau allweddol

Mae paragraff 1.19 o'r Cod yn nodi y dylai **awdurdodau lleol**, mewn partneriaeth ag ysgolion, 'roi'r **flaenoriaeth uchaf** i'w dyletswydd statudol i hyrwyddo safonau addysg uchel ar gyfer pob plentyn, yn cynnwys rhai ag AAA'. Mae paragraff 1.20 yn nodi mai un o swyddogaethau hanfodol awdurdodau lleol yw sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc sydd ag AAA 'yn cael eu canfod a'u hasesu'n **gyflym** a bod darpariaeth **addas** yn cael ei gwneud'.

Mae rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol i gyhoeddi eu polisïau AAA a gwybodaeth ynglŷn â'r ffordd y maent yn 'hyrwyddo safonau addysg uchel' i ddysgwyr ag AAA a'u hannog i gyfranogi'n llawn yn eu hysgol a'u cymuned leol.

Mae paragraff 1.24 o'r Cod yn cynghori, er mwyn cyflawni eu rôl yn effeithiol, y dylai awdurdodau lleol ddarparu ar gyfer cynnwys dysgwyr sydd ag AAA mewn ysgolion prif ffrwd. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ail

egwyddor gyffredinol sy'n **rhagdybio darpariaeth brif ffrwd**. Pan nad yw dysgwr ag AAA wedi cael datganiad, mae'n rhaid iddo gael ei addysgu mewn ysgol brif ffrwd. Os yw wedi cael datganiad, mae'n rhaid o hyd iddo gael ei addysgu mewn ysgolion prif ffrwd oni fydd ei rieni'n dymuno fel arall neu os nad yw'n gydnaws ag addysg effeithlon plant eraill.[6]

Ni chaiff ysgolion ac awdurdodau derbyn **wrthod derbyn plentyn dim ond oherwydd bod ganddo AAA**. Yn achos dysgwyr ag AAA ond heb ddatganiad, rhaid dilyn yr un gweithdrefnau derbyn ag ar gyfer plant eraill. Yn achos dysgwyr â datganiadau, mae'n rhaid i ysgol a gynhelir dderbyn y plentyn os yw'n cael ei henwi yn y datganiad.

Mae'n rhaid bod gan **ysgolion a gynhelir** a lleoliadau blynyddoedd cynnar **bolisi AAA ysgrifenedig**. Mae'n rhaid i ysgolion ddynodi **'person cyfrifol'** (y pennaeth fel arfer ond gall fod yn llywodraethwr) sy'n sicrhau bod pob athro yn ymwybodol o AAA plentyn. Mae paragraff 1.38 o'r Cod yn ei gwneud yn glir bod darpariaeth i ddysgwyr ag AAA yn fater i bawb mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau blynyddoedd cynnar, ac nid y Cydlynydd AAA yn unig.

Y **Cydlynydd AAA** yw'r aelod o staff mewn ysgol sy'n gyfrifol am gydlynu darpariaeth AAA yn yr ysgol honno. Mewn ysgol fach, efallai mai'r pennaeth neu'r dirprwy bennaeth fydd hwn, ond mewn ysgol fawr, efallai y bydd yna dîm cydlynu AAA. Mae gan AAA ran hanfodol i'w chwarae i weithio gyda'r athro/athrawon dosbarth i nodi AAA disgybl a pha fath o ymyriad sydd ei angen.

Mae'n rhaid i **gyrff llywodraethu** ysgolion a gynhelir wneud **pob ymdrech** i sicrhau y rhoddir y ddarpariaeth angenrheidiol i unrhyw ddisgybl sydd ag AAA. Mae'n rhaid i gyrff llywodraethu hefyd gyflwyno adroddiad blynyddol i rieni ynglŷn â'r ffordd y mae polisi AAA yr ysgol yn cael ei roi ar waith.[7]

Pan fo dysgwr wedi cael datganiad, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth a amlinellir yn y datganiad hwnnw. Os nad yw dysgwr wedi cael datganiad, yr ysgol sy'n gyfrifol am benderfynu yr hyn sydd ei angen ac am wneud y ddarpariaeth honno.

### Darpariaeth ôl-16

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr dros 16 oed nad ydynt mewn ysgol wedi'i nodi mewn deddfwriaeth ar wahân, sef ***Deddf Dysgu a Sgiliau 2000***, sy'n ymdrin â chynllunio ac ariannu addysg ôl-16. Mae'r ddeddfwriaeth yn defnyddio'r term **'Anawsterau a/neu Anableddau Dysgu'** (AAD) yn hytrach nag AAA. Caiff AAD eu diffinio yn adran 41(5) o Ddeddf 2000. Mae'r diffiniad yn ei hanfod yr un fath ag ar gyfer AAA; h.y. a yw'r dysgwr yn cael llawer mwy o anhawster wrth ddysgu na'r mwyafrif yn ei grŵp oedran, neu a oes ganddo anabledd sy'n ei atal neu'n ei rwystro rhag manteisio ar yr addysg a'r hyfforddiant sydd fel arfer ar gael.

Ar hyn o bryd, mae dyletswydd gyffredinol ar Weinidogion Cymru o dan *Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000* i sicrhau cyfleusterau **priodol** (i'r rhai rhwng 16 a 19 oed) a chyfleusterau **rhesymol** (i'r rhai dros 19 oed) ar gyfer addysg a hyfforddiant i ddysgwyr. Yn benodol, mae adran 140 yn gosod **dyletswydd** ar Lywodraeth Cymru i wneud trefniadau i **bobl ifanc o dan 19 oed sydd wedi cael datganiad o AAA gael eu hasesu**, lle y cred eu bod yn **debygol o adael yr ysgol ar ddiwedd eu blwyddyn olaf o addysg orfodol** i fynd ymlaen i addysg bellach neu uwch neu hyfforddiant. Cynhelir asesiad yn ystod y flwyddyn olaf o addysg orfodol.

---

[6] *Adran 316, **Deddf Addysg 1996***
[7] *Adran 317, **Deddf Addysg 1996***

Mae gan Lywodraeth Cymru **bŵer** hefyd o dan adran 140 o Ddeddf 2000 i drefnu i asesiad gael ei gynnal o **unrhyw berson o dan 25 oed** os ymddengys bod ganddynt anawsterau dysgu ac os ydynt yn cael, neu'n debygol o gael, addysg bellach neu addysg uwch neu hyfforddiant. Mae hyn yn gymwys **hyd yn oed os nad ydynt wedi cael datganiad o AAA** a'r nod yw ei gwneud yn bosibl i asesiadau gael eu cynnal mewn achosion lle y datblygodd anawsterau dysgu ychydig cyn neu ar ôl gadael yr ysgol, neu os oedd ganddynt anawsterau dysgu nad arweiniodd at roi datganiad o AAA.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei dyletswyddau i asesu dysgwyr drwy gontract gyda Gyrfa Cymru. Mae asesiad gan Gyrfa Cymru yn arwain at adroddiad sy'n nodi anghenion addysgol a hyfforddiant unigolyn, yr addysg neu'r hyfforddiant ôl-16 sydd ei angen i ddiwallu'r anghenion hynny a'r ddarpariaeth sydd ei hangen.

Os gellir diwallu AAD dysgwr mewn **sefydliad prif ffrwd**, y sefydliad addysg bellach sy'n talu'r costau hyn fel rhan o'i gyllideb gyffredinol. Cyn 2015-16, roeddent hefyd yn gallu gwneud cais i Lywodraeth Cymru am gyllid atodol neu eithriadol i dalu unrhyw gostau ychwanegol a fyddai'n cael eu hysgwyddo i ddiwallu anghenion cymhleth, ond yna trosglwyddwyd y gyllideb hon i'r dyraniadau i sefydliadau addysg bellach o dan y fframwaith cyllido a chynllunio ôl-16 newydd. Pan fo angen **llety preswyl neu arbenigol** ar ddysgwr, mae Gyrfa Cymru yn paratoi ac yn cyflwyno cais unigol i Lywodraeth Cymru, sydd wedyn yn gwneud penderfyniad ynghylch ariannu, gan gynnwys unrhyw negodi ar gyfer cyllido ar y cyd gydag awdurdodau lleol a/neu fyrddau iechyd.

Mae trefniadau ar gyfer AAD/ADY dysgwyr ôl-16 yn bwnc cymhleth sydd wedi cael ei adolygu gryn dipyn yn ei rinwedd ei hun. Trafodir hyn yn nes ymlaen ym mhennod 6 o'r papur hwn.

## Darpariaeth raddedig ar gyfer AAA

Mae'r Cod yn annog **dull gweithredu graddedig** er mwyn helpu plant ag AAA, gan gwmpasu nifer o strategaethau ac ymyriadau. Mae'r Cod yn nodi bod y dull gweithredu hwn yn cydnabod bod continwwm o AAA ac y dylai ysgolion wneud defnydd llawn o'r adnoddau ystafell ddosbarth ac adnoddau'r ysgol sydd ar gael cyn troi at adnoddau allanol a/neu fwy o arbenigedd.

Mae'r Cod yn pwysleisio 'na ellir gorbwysleisio pwysigrwydd canfod ac asesu anghenion addysgol arbennig a darparu ar eu cyfer cyn gynted ag y bo modd', gan nodi **'po gynharaf y gweithredir, mwyaf tebygol y mae'r plentyn o allu ymateb'**.

Ceir penodau ar wahân yn y Cod ar ganfod, asesu a darparu ar gyfer AAA ym mhob un o'r sectorau blynyddoedd cynnar, cynradd ac uwchradd. Mae'r wybodaeth a roddir isod yn crynhoi'r canllawiau mewn perthynas ag ysgolion cynradd (pennod 5 o'r Cod). Fodd bynnag, mae'r canllawiau yn fras yr un fath ag ar gyfer y blynyddoedd cynnar (pennod 4) ac ysgolion uwchradd (pennod 6).

Mae paragraff 5.39 yn disgrifio dechrau'r broses o nodi y gall fod gan blentyn AAA:

> *Dylai system **ysgol ar gyfer arsylwi ar gynnydd plant unigol a'i asesu** roi gwybodaeth am feysydd lle **nad yw plentyn yn gwneud cynnydd boddhaol er bod yr arddull addysgu wedi'i wahaniaethu**. Yn ogystal ag arsylwi fel hyn, **dylid defnyddio gwybodaeth a gasglwyd dros amser** am gryfderau a gwendidau plentyn unigol. Gyda'r dystiolaeth hon, gall athrawon dosbarth ddod i deimlo **nad yw'r strategaethau y maent yn eu defnyddio gyda'r plentyn ar y pryd yn peri i'r ddysgu mor effeithiol ag sy'n bosibl**. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd angen iddynt ymgynghori â'r Cydlynydd AAA i ystyried beth arall y gellid ei wneud. Y man cychwyn bob amser fydd **adolygu'r strategaethau sy'n cael eu defnyddio ar y pryd** ac ystyried sut y gellid datblygu'r rhain. Gallai'r adolygiad **arwain i'r casgliad** bod angen ar y disgybl angen **help y tu hwnt i'r***

> ***hyn** sydd ar gael fel arfer yn y dosbarth neu'r pwnc hwnnw. Dylid rhoi ystyriaeth wedyn i **helpu'r disgybl drwy Gweithredu gan yr Ysgol**. [fy mhwyslais i]*

Y prawf allweddol o'r angen am weithredu y dylai ysgolion ei ddefnyddio yw tystiolaeth bod y cyfraddau cynnydd ar y pryd yn annigonol. Nid yw hyn o anghenraid mor syml â'r ffaith bod plentyn ar ei hôl hi o'i gymharu â disgyblion eraill, gan na ellir tybio bod pob plentyn yn gwneud cynnydd ar yr un gyfradd ac mae'r Cod (para 5.42) yn rhoi canllawiau ynglŷn â sut y gellir diffinio cynnydd digonol. Mae hefyd yn bwysig nodi nad oes gan blentyn AAA o anghenraid os gellid datrys ei anawsterau dysgu drwy addysgu gwahaniaethol yn unig.

## Gweithredu gan yr Ysgol

*Gweithredu gan yr Ysgol* yw'r haen gyntaf o dair haen o ymyrryd o dan y dull gweithredu graddedig a hyrwyddir gan y Cod. **Ni ddylid** cymryd bod pob haen yn **gam** tuag at yr un nesaf, yn enwedig o *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy* i ddatganiadau.

Mae disgyblion yn cael cymorth o dan *Gweithredu gan yr Ysgol* pan nad ydynt yn gwneud cynnydd digonol ac na ellir mynd i'r afael â hyn drwy addysgu gwahaniaethol rheolaidd. *Mae Gweithredu gan yr Ysgol* yn cynnwys 'ymyriadau sy'n **ychwanegol at** y rhai a ddarperir fel rhan o gwricwlwm gwahaniaethol a strategaethau arferol yr ysgol **ac yn wahanol iddynt**'.

Mae paragraff 5.44 esbonio **y gallai ymyrraeth drwy *Gweithredu gan yr Ysgol*** fod oherwydd pryder, a gefnogir gan dystiolaeth, bod plentyn, er gwaethaf cael cyfleoedd dysgu gwahaniaethol:

- yn gwneud **fawr ddim cynnydd, neu ddim o gwbl**, hyd yn oed pan fo'r dulliau addysgu'n cael eu **targedu'n benodol** at fan gwan y plentyn;
- yn dangos arwyddion ei fod yn cael **anhawster i ddatblygu sgiliau llythrennedd neu fathemateg**, sy'n arwain at gyrhaeddiad isel mewn rhai meysydd cwricwlaidd;
- yn amlygu **anawsterau emosiynol neu ymddygiadol parhaus** nad ydynt yn gwella o ddefnyddio technegau rheoli ymddygiad arferol yr ysgol;
- yn cael **problemau synhwyraidd neu gorfforol**, ac yn parhau i wneud fawr ddim cynnydd, neu ddim o gwbl, er bod offer arbennig wedi'u darparu ar ei gyfer;
- yn cael **anawsterau cyfathrebu a/neu ryngweithio**, ac yn parhau i wneud fawr ddim cynnydd neu ddim o gwbl, er bod cwricwlwm gwahaniaethol wedi'i ddarparu ar ei gyfer.

Mae gan y **Cydlynydd AAA** ran bwysig i'w chwarae o ran gweithio gydag athro/athrawon y plentyn i benderfynu ar y camau gweithredu sydd eu hangen er mwyn helpu'r plentyn i wneud cynnydd. Mae'r Cod yn awgrymu y gallai deunyddiau dysgu gwahanol neu gyfarpar arbennig fod ymhlith yr ymyriadau a wneir. Dylai'r strategaethau ychwanegol a ddefnyddir gael eu cofnodi o fewn **Cynllun Addysg Unigol**, a ddylai hefyd gynnwys gwybodaeth am dargedau byrdymor, canlyniadau a meini prawf llwyddiant/ymadael. Mae paragraff 5.53 yn nodi y dylai Cynlluniau Addysg Unigol gael eu **hadolygu** o leiaf ddwywaith y flwyddyn, a phob tymor yn ddelfrydol.

## Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy

Os nad yw'r ymyriadau o dan *Gweithredu gan yr Ysgol* yn sicrhau canlyniadau digonol, efallai y bydd y Cydlynydd AAA a'r athro/athrawon, ar ôl ymgynghori â'r rhieni ac arbenigwyr, yn penderfynu cynnwys gwasanaethau **cymorth allanol**.

Mae paragraff 5.56 yn disgrifio'r **sail dros *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy***, sef bod y plentyn, er iddo gael rhaglen unigol a/neu gefnogaeth ddwys yn ystod cyfnod *Gweithredu gan yr Ysgol*:

- yn parhau i wneud fawr ddim cynnydd, neu ddim o gwbl, mewn meysydd penodol dros gyfnod hir;
- yn parhau i weithio ar lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n sylweddol is na'r lefel a ddisgwylir gan blant o oedran tebyg;
- yn parhau i gael anhawster i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd;
- yn cael anawsterau emosiynol neu ymddygiadol sy'n amharu'n sylweddol ac yn rheolaidd ar addysg y plentyn ei hun neu addysg grŵp y dosbarth, er bod ganddo ei raglen rheoli ymddygiad ei hun;
- ag anghenion synhwyraidd neu gorfforol, a bod arno angen cyfarpar arbenigol ychwanegol neu gyngor neu ymweliadau rheolaidd gan wasanaeth arbenigol;
- yn cael anawsterau cyfathrebu neu ryngweithio parhaus sy'n amharu ar ddatblygiad perthnasoedd cymdeithasol ac yn rhwystr sylweddol rhag dysgu.

Gall yr awdurdod lleol, yn ogystal ag asiantaethau allanol, ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys cyngor ar Gynlluniau Addysg Unigol newydd â thargedau a strategaethau newydd, asesiadau mwy arbenigol a chyngor ar strategaethau neu ddeunyddiau arbenigol newydd. Er eu bod yn cael eu datblygu gyda chymorth arbenigwyr allanol, dylai strategaethau fel arfer gael eu rhoi ar waith yn yr ystafell ddosbarth arferol hyd y gellir a'r **athro ystafell ddosbarth ddylai barhau i fod yn gyfrifol am eu rhoi ar waith**.

## Asesiadau a datganiadau statudol

Os nad yw *Gweithredu gan yr Ysgol* na *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy* wedi arwain at welliant digonol, neu os yw'n amlwg yn syth bod anghenion dysgwr yn ddigon difrifol, gall yr awdurdod lleol gynnal asesiad statudol. Gall hyn yn ei dro beri i'r awdurdod lleol roi datganiad am AAA y plentyn.

Arwyddocâd datganiadau yw bod yr **awdurdod lleol yn dod yn gyfrifol yn gyfreithiol** am wneud darpariaeth i ddiwallu anghenion a nodwyd. Mae dyletswydd arno o dan adran 324 o *Ddeddf Addysg 1996* i drefnu'r ddarpariaeth addysgol arbennig yn natganiad plentyn. Mae geiriad y Cod pan gafodd ei baratoi ar ddechrau'r degawd diwethaf yn dangos disgwyliad y caiff datganiadau eu rhoi **yn niffyg popeth arall neu yn yr achosion mwyaf difrifol**.

> *Ar gyfer y **mwyafrif helaeth** o blant, bydd eu sefydliad prif ffrwd yn diwallu eu holl anghenion addysgol arbennig. (…) Bydd gan **leiafrif bach iawn** o blant AAA mor ddwys neu gymhleth fel y bydd gofyn i'r [awdurdod lleol] bennu a threfnu'r ddarpariaeth addysgol arbennig sy'n angenrheidiol ar gyfer eu hanawsterau dysgu. (para 1.2) [fy mhwyslais i]*

Fodd bynnag, mae rhieni wedi tueddu i gredu mai **datganiadau yw'r ffordd orau** o sicrhau ymyriadau i'w plentyn, gan gael **tawelwch meddwl fwy na thebyg gan y sicrwydd cyfreithiol** a roddant y caiff darpariaeth ei gwneud. Gellir dadlau bod hyn wedi peri i'r system o ddatganiadau ddod yn **wrthwynebol ac yn hirfaith** rhwng awdurdod lleol a rhiant. Yn wir, cydnabu'r Gweinidog Addysg a Sgiliau blaenorol, Huw Lewis, y farn bod y system wedi dod **'yn gymhleth, yn ddyrys ac yn wrthwynebol'**.[8] Dyna un o'r rhesymau pam mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflwyno system

[8] Llywodraeth Cymru, *Cynigion deddfwriaethol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol*, Rhagair Gweinidogol (Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau), Mai 2014, t2

gyfannol lle mae pob dysgwr ag AAA yn cael Cynllun Datblygu Unigol yn lle'r system o ymyriadau o dan arweiniad yr ysgol yn erbyn datganiadau statudol gan awdurdodau lleol.

Mae **rheolau a gweithdrefnau** wedi'u gosod mewn deddfwriaeth a'r Cod ynglŷn â materion megis pryd mae rhwymedigaeth ar awdurdod lleol i **gynnal asesiad**, **erbyn pryd** y mae'n rhaid iddo wneud hynny a **pha ffactorau** y mae'n rhaid eu hystyried.

## Proses o asesiadau a datganiadau statudol

Mae pennod 7 o'r Cod Ymarfer yn amlinellu'r gweithdrefnau y dylai awdurdodau lleol eu dilyn mewn perthynas â dysgwyr ag AAA sy'n ddigon difrifol fel bod **angen asesiad statudol a datganiad o bosibl arnynt**. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys amgylchiadau lle mae'r awdurdod lleol yn cael cais i gynnal asesiad statudol.

Mae'r Cod yn disgrifio'r gofynion ar awdurdodau lleol o dan adrannau 321 a 323 o *Ddeddf Addysg 1996* fel a ganlyn:

> *Rhaid i [awdurdodau lleol] ganfod a gwneud asesiad o'r plant hynny y maent yn gyfrifol amdanynt sydd ag anghenion addysgol arbennig ac y mae'n debygol y bydd angen datganiad arnynt. (tudalen 73)*

Felly mae dau **brif gam** i awdurdodau lleol **o ran gwneud penderfyniad**.

– Yn gyntaf, rhaid iddynt benderfynu **a oes angen cynnal asesiad statudol**.

– Yn ail, os cynhelir asesiad, rhaid iddynt benderfynu **a ddylid rhoi datganiad o'i AAA i ddysgwr**.

### Penderfynu a ddylid cynnal asesiad

Mae paragraff 7.7 o'r Cod yn nodi **tri llwybr posibl** o gyfeirio plentyn i gael asesiad:

– Cais gan **ysgol** neu sefydliad y plentyn;

– Cyfeiriad gan **asiantaeth arall** (er enghraifft, awdurdodau iechyd neu adrannau gwasanaethau cymdeithasol);

– Cais gan **riant**.

Os nad oes asesiad wedi'i gynnal eisoes yn y chwe mis blaenorol, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ufuddhau i gais naill ai gan yr ysgol neu'r rhiant oni ddaw i'r casgliad, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth, nad oes angen asesiad statudol (paragraffau 7.11 a 7.21). Pan fo gweithiwr proffesiynol iechyd neu wasanaethau cymdeithasol yn cyfeirio plentyn, unwaith eto, nid yw'n ofynnol yn awtomatig i'r awdurdod lleol gynnal asesiad, er bod angen iddo gasglu tystiolaeth cyn ystyried a oes angen un (para 7.15).

Mae hyn yn golygu i bob diben mai'r **awdurdod lleol fydd yn penderfynu** a ddylai gynnal yr asesiad er bod y Cod yn rhoi canllawiau ar ba **ffactorau y dylai'r awdurdod lleol eu hystyried a chyda phwy y dylai ymgynghori**. Mae paragraff 7.35 o'r Cod yn nodi:

Wrth ystyried a oes angen asesiad statudol, dylai [awdurdodau lleol] dalu sylw arbennig i:

– dystiolaeth bod **yr ysgol wedi ymateb yn briodol** i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol;

– *tystiolaeth a ddarperir gan ysgol y plentyn, y rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill lle buont yn ymwneud â'r plentyn, ynglŷn â* ***natur, maint ac achos*** *anawsterau dysgu'r plentyn;*

– *tystiolaeth am* ***y camau a gymerwyd eisoes*** *gan ysgol y plentyn i ateb a goresgyn yr anawsterau hynny;*

– *tystiolaeth am gyfradd ac arddull* ***cynnydd*** *y plentyn;*

– *lle bo rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, tystiolaeth mai dim ond o ganlyniad i lawer o ymdrech a chyfarwyddyd ychwanegol* ***dros gyfnod hir, sy'n fwy nag a ddarperir fel rheol*** *trwy Gweithredu a Mwy, y gwnaed hynny. [fy mhwyslais i]*

Y **cwestiwn** allweddol y mae'r awdurdod lleol yn ei wynebu yw, er gwaethaf y camau a gymerwyd gan yr ysgol gyda chymorth arbenigwyr allanol, **p'un a yw anawsterau dysgu'r plentyn wedi peidio â chael eu hunioni'n ddigonol** ac a oes angen i'r awdurdod lleol bennu AAA y plentyn. Fodd bynnag, efallai y bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu nad oes angen asesiad statudol, hyd yn oed os bydd angen rhywfaint o ymyriad neu gymorth ychwanegol ar blentyn. Fel y mae'r Cod yn ei nodi ym mharagraff 7.46, efallai y gall yr awdurdod lleol 'benderfynu ar atebion i'w rhoi ar waith ar unwaith a fyddai'n golygu na fydd angen asesiad statudol'. Gallai'r rhain gynnwys cymorth drwy *Gweithredu gan yr Ysgol* neu *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*.

Er bod y Cod yn nodi nad yw '**cyrhaeddiad** academaidd ynddo'i hun yn ddigon i awdurdodau lleol ddod i'r casgliad ynghylch a oes angen asesiad statudol ai peidio', mae'n dweud mai dyma'r '**man cychwyn** hanfodol'. Felly dylai awdurdodau lleol ystyried **anghysondebau sylweddol** rhwng cyrhaeddiad y plentyn a chyrhaeddiad y **rhan fwyaf** o'i gyd-ddisgyblion yn yr ystafell ddosbarth a'u cyfoedion, yn ogystal â'u cyrhaeddiad eu hunain o fewn neu rhwng pynciau craidd y cwricwlwm cenedlaethol.

At hynny, mae paragraffau 7.42-7.45 yn nodi ffactorau eraill heblaw cyrhaeddiad, y dylid hefyd eu hystyried, gan gynnwys:

– Tystiolaeth glir, wedi'i chofnodi, **o letchwithdod**; anawsterau sylweddol i roi pethau mewn dilyniant neu o ran canfyddiad gweledol; diffygion yn y cof gwaith; neu arafwch sylweddol o ran gweithrediad iaith.

– Unrhyw dystiolaeth **o anawsterau o ran rhyngweithio cymdeithasol neu gyfathrebu**, neu o stoc gyfyngedig iawn o weithgareddau, diddordebau a datblygiad y dychymyg;

– Tystiolaeth o **anawsterau emosiynol neu ymddygiadol** o bwys, fel y dengys enghreifftiau sydd wedi'u cofnodi'n glir o ymddygiad encilgar neu aflonyddol; anallu amlwg a pharhaus i ganolbwyntio; arwyddion bod y plentyn yn profi rhwystredigaeth neu loes sylweddol oherwydd ei anawsterau dysgu; anawsterau i sefydlu a chynnal perthnasau cytbwys gyda'i gyd-ddisgyblion neu gydag oedolion; ac unrhyw dystiolaeth arall bod yna arafwch sylweddol o ran datblygu sgiliau byw a sgiliau cymdeithasol.

Gall ffactorau eraill sy'n ymwneud ag **amgylchedd cartref plentyn neu ei bresenoldeb yn yr ysgol** hefyd gyfrannu at dangyflawni ond efallai nad ydynt bob amser yn arwyddion o AAA. Felly, mae'r Cod yn nodi y dylai awdurdodau lleol geisio tystiolaeth o unrhyw ffactorau o'r fath y gellir eu nodi a allai effeithio ar ddeiliannau dysgu gan gynnwys:

– Unrhyw dystiolaeth bod perfformiad y plentyn yn wahanol mewn gwahanol amgylcheddau;

– Tystiolaeth o broblemau meddygol sy'n cyfrannu;

– Tystiolaeth o asesiadau neu ymyriadau gan wasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol plant.

O ran gwneud ei benderfyniad, mae paragraff 7.29 o'r Cod yn nodi:

> *Dylai'r [awdurdod lleol] ymateb **mewn modd cyson** i geisiadau gan rieni, ysgolion a sefydliadau am asesiadau a dylai benderfynu **mewn modd agored a gwrthrychol** a ddylid llunio datganiad. [fy mhwyslais i]*

Mae paragraff 7.40 yn ychwanegu:

> *Os yw'r dystiolaeth a gyflwynir i'r [awdurdod lleol] ac a asesir ganddo, at ei gilydd, yn awgrymu:*
>
> – ***nad yw anawsterau dysgu'r plentyn wedi ymateb** i fesurau perthnasol a phwrpasol a gymerwyd gan yr ysgol neu'r sefydliad ac arbenigwyr allanol; ac*
>
> – *y gall fod angen darpariaeth addysgol arbennig **na ellir ei darparu'n rhesymol o fewn yr adnoddau sydd ar gael fel arfer** i ysgolion a sefydliadau prif ffrwd a gynhelir yn yr ardal.*
>
> *Dylai'r [awdurdod lleol] **ystyried yn ofalus iawn yr achos dros gynnal asesiad statudol** o anghenion addysgol arbennig y plentyn. [fy mhwyslais i]*

### Cyfathrebu â theuluoedd

Cyn penderfynu a ddylid cynnal asesiad ai peidio, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad o dan adran 323(1) neu 329A(3) o *Ddeddf Addysg 1996*, **gan hysbysu'r rhieni a rhoi gwybodaeth benodol** am y broses.

Mae'r Cod yn nodi'r camau y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu cymryd er mwyn rhoi gwybod am ei benderfyniad i gynnal asesiad ai peidio. Mae paragraff 7.69 yn nodi:

> *Os yw'r AALl yn penderfynu nad oes angen cynnal asesiad statudol, mae'n **rhaid** iddo roi gwybod i'r rhieni gan esbonio'r rhesymau; dylai hefyd nodi'r ddarpariaeth a fyddai ym marn yr awdurdod yn diwallu anghenion y plentyn yn briodol. Gall y penderfyniad i beidio â gwneud asesiad statudol fod yn siom fawr i rieni'r plentyn ac efallai na fydd ysgol y plentyn yn ei groesawu chwaith. Pwy bynnag a soniodd i ddechrau y gallai fod angen asesiad – yr [awdurdod lleol] ar y naill law neu'r rhieni neu'r ysgol ar y llaw arall – **dylai'r [awdurdod lleol] ysgrifennu** at yr ysgol **ac at rieni'r plentyn yn rhoi'r rhesymau llawn am ei benderfyniad**. [ac eithrio 'rhaid', fy mhwyslais i yw pob darn mewn print trwm]*

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol hysbysu rhieni (neu'r ysgol os mai'r ysgol a wnaeth y cais) am ei benderfyniad ynghylch cynnal asesiad statudol o fewn **chwe wythnos** i dderbyn y cais.

Mae'r Cod yn awgrymu y gallai fod yn fuddiol pe bai'r awdurdod lleol yn cyfarfod â'r rhieni i esbonio'r sefyllfa'n fanwl. Mae hefyd yn nodi y gall yr awdurdod lleol ystyried gwahodd cynrychiolydd o'r ysgol i fod yn bresennol, gan dynnu sylw at y ffaith y 'bydd cyfarfod fel hyn yn neilltuol o ddefnyddiol os yw'n amlwg bod anghytuno rhwng y rhieni a'r ysgol'.

## Apeliadau

O dan baragraff 7.71, pan fo rhieni wedi gwneud cais yn ffurfiol am asesiad statudol neu pan fo ysgol neu sefydliad eu plentyn wedi gwneud cais o'r fath, **gall y rhieni apelio i Dribiwnlys AAA Cymru** yn erbyn penderfyniad i beidio â chynnal asesiad. **Mae'n rhaid i awdurdodau lleol hysbysu rhieni o'r hawl i apelio** a'r terfynau amser ar gyfer apelio, y gwasanaethau datrys anghydfod sydd ar gael a'r ffaith nad yw'r rhain yn effeithio ar hawl rhiant i apelio.

Ers 5 Ionawr 2015, **mae gan blant eu hunain yr hawl i apelio** i Dribiwnlys AAA Cymru ynghylch penderfyniadau awdurdodau lleol ar AAA.[9]

## Penderfynu a ddylid llunio datganiad

Yn unol â pharagraffau 7.74 a 7.82 o'r Cod, ar ôl penderfynu cynnal asesiad statudol, mae'n **rhaid i'r awdurdod lleol geisio'r cyngor canlynol**:

- Cyngor rhieni;
- Cyngor addysgol;
- Cyngor meddygol:
- Cyngor seicolegol;
- Cyngor gwasanaethau cymdeithasol.

O dan baragraff 7.85, dylai awdurdodau lleol hefyd geisio cadarnhau **barn y plant a'r bobl ifanc** sy'n cael eu hasesu. Dylai barn y dysgwr am ei anghenion a'i ddyheadau gael eu cofnodi, pryd bynnag y bo modd, fel rhan o'r broses asesu statudol.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol hefyd geisio **unrhyw gyngor arall** sy'n briodol ym marn yr awdurdod lleol a, lle y bo'n rhesymol, dylent ymgynghori a'r rhai y mae'r rhieni wedi'u henwi. Mae'n rhaid iddynt roi copïau o unrhyw sylwadau neu dystiolaeth a gyflwynir gan y rhieni i'r rhai y maent yn ceisio cyngor ganddynt.

Ar yr adeg hon, mae'n rhaid i'r rhieni gael eu hysbysu y caiff eu plentyn ei alw i mewn am archwiliad neu asesiad o bosibl fel rhan o'r broses o gasglu'r holl gyngor perthnasol ynghyd.

Wrth ofyn am gyngor, dylai'r awdurdod lleol ofyn i **bawb dan sylw ymateb o fewn chwe wythnos**. Mae'n rhaid i'r adrannau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol fel arfer ymateb o fewn y cyfnod hwn o chwe wythnos, ond nid oes rhwymedigaeth arnynt i wneud hynny os nad ydynt wedi cael unrhyw gysylltiad blaenorol â'r plentyn.

---

[9] Llywodraeth Cymru, Huw Lewis (y Gweinidog Addysg a Sgiliau), ***Hawliau Plant i Wneud Apêl neu Hawliad i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru***, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 15 Rhagfyr 2014

Dylai awdurdodau lleol nodi'n glir bod y rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol **i'r cyngor ymwneud â nodweddion addysgol, meddygol a seicolegol neu nodweddion eraill sy'n ymddangos yn berthnasol** i anghenion addysgol presennol plentyn a'i anghenion addysgol yn y dyfodol. Mae'n rhaid i'r cyngor hefyd nodi sut y gallai'r nodweddion hynny effeithio ar anghenion addysgol presennol y plentyn a'i anghenion addysgol yn y dyfodol a'r ddarpariaeth yr ystyrir ei bod yn briodol yng ngoleuni'r nodweddion hynny.

Mae paragraff 7.86 yn nodi fod yn rhaid i'r awdurdod lleol, ar ôl cael yr holl gyngor, benderfynu a oes angen gwneud datganiad neu ddiwygio datganiad sy'n bodoli eisoes. Mae'n rhaid iddo wneud **y penderfyniad hwnnw cyn pen deg wythnos** ar ôl cyflwyno'r hysbysiad ei fod yn cynnal asesiad statudol. (Mae hyn yn cynnwys y cyfnod o chwe wythnos i geisio cyngor.)

Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu bod angen gwneud neu ddiwygio datganiad, mae'n rhaid iddo anfon copi o'r **datganiad arfaethedig** at rieni'r plentyn **cyn pen pythefnos**. Dylid cynnwys y cyngor a gafwyd hefyd.

Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu nad oes angen gwneud na diwygio datganiad, mae'n rhaid iddo hysbysu'r rhieni a rhoi rhesymau, gan roi **nodyn yn lle'r datganiad** os oes modd, hefyd o fewn pythefnos.

Mae'n rhaid i rieni fel arfer gael eu hysbysu'n ffurfiol o ganlyniad yr asesiad o fewn **12 wythnos i ddechrau'r asesiad statudol**. Os mai datganiad arfaethedig ydyw, bydd gan yr awdurdod lleol **wyth wythnos arall i wneud y datganiad terfynol**.

Mae hyn yn golygu y dylai'r **broses gyfan** o atgyfeirio neu wneud cais am asesiad statudol i gael datganiad terfynol gael ei chwblhau **o fewn 26 wythnos**. (Mae hyn yn cynnwys y cyfnod gwreiddiol o chwe wythnos i benderfynu a ddylid cynnal asesiad a'r 20 wythnos ar gyfer y broses o benderfynu a oes angen datganiad a pharatoi'r datganiad hwnnw.)

Mae data o wefan Fy Nghyngor Lleol yn dangos i 68% o ddatganiadau AAA yn 2015-16 gael eu rhoi o fewn y targed o 26 wythnos a 94% lle nad oedd unrhyw amgylchiadau arbennig.

Fel yn achos penderfyniadau a ddylid cynnal yr asesiad, mae gan rieni a phlant yr hawl i apelio i Dribiwnlys AAA Cymru yn erbyn y penderfyniad.

## Cynnwys datganiadau

Mae'n rhaid i ffurf a chynnwys datganiad a roddir gan awdurdod lleol gydymffurfio â pharagraff 8.29 o'r Cod. Dylai datganiad gynnwys:

- **Rhan 1, Cyflwyniad**: Enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r plentyn; iaith aelwyd y plentyn a'i grefydd; enwau a chyfeiriad(au) rhieni'r plentyn.
- **Rhan 2, Anghenion Addysgol Arbennig**: Manylion pob un o AAA y plentyn fel y'u nodwyd gan yr awdurdod lleol yn ystod yr asesiad statudol; manylion y cyngor a gafwyd ac a atodwyd fel atodiadau i'r datganiad.
- **Rhan 3, Darpariaeth Addysgol Arbennig**: Y ddarpariaeth addysgol arbennig sy'n angenrheidiol ym marn yr awdurdod lleol er mwyn diwallu AAA y plentyn, gan gynnwys amcanion y ddarpariaeth, y ddarpariaeth ei hun a'r trefniadau ar gyfer monitro cynnydd.

– **Rhan 4, Lleoliad**: Y math o ysgol ac enw’r ysgol lle y caiff y ddarpariaeth ei gwneud neu drefniadau’r awdurdod lleol ar gyfer darpariaeth os bwriedir iddi fod y tu allan i’r ysgol. (Mae’n rhaid gadael y rhan hon yn wag pan roddir y datganiad arfaethedig fel na fydd yn achub y blaen ar ddymuniadau rhieni.)

– **Rhan 5, Anghenion Anaddysgol**: Holl anghenion anaddysgol perthnasol y plentyn fel y cytunwyd arnynt rhwng y gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol neu asiantaethau eraill a’r awdurdod lleol.

– **Rhan 6, Darpariaeth Anaddysgol**: Manylion y ddarpariaeth anaddysgol berthnasol sy'n ofynnol fel y cytunwyd arni, gan gynnwys y trefniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer y ddarpariaeth.

Mae’n rhaid i’r holl gyngor a gafwyd ac a ystyriwyd yn ystod yr asesiad gael ei atodi fel atodiadau i’r datganiad.

Gall rhieni nodi pa ysgol a gynhelir y maent am i’w plentyn ei mynychu (ond nid Uned Cyfeirio Disgyblion nac ysgol arbennig ysbyty), neu gyflwyno sylwadau o blaid lleoliad mewn unrhyw ysgol arall. **Mae’n rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â dymuniad y rhiant oni fydd yr ysgol yn anaddas** oherwydd oedran, gallu, doniau neu AAA y plentyn, neu y byddai’r lleoliad yn **anghydnaws ag** addysg effeithlon plant eraill neu’r **defnydd effeithlon o adnoddau**.

Mae’n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau y caiff plentyn ei addysgu mewn **ysgol brif ffrwd** oni bai bod rhiant yn nodi nad yw am i’w blentyn gael ei addysgu mewn ysgol brif ffrwd neu nad yw’n gydnaws ag addysg effeithlon plant eraill.

### Lleoliadau preswyl

Mae’r Cod yn esbonio:

> *Yn gyffredinol, mae [awdurdodau lleol] yn debygol o ystyried bod **angen darpariaeth breswyl** lle ceir cytundeb amlasiantaethol:*
>
> – *bod gan y plentyn anghenion addysgol arbennig difrifol neu luosog **na ellir** eu diwallu gan **ddarpariaeth ddydd yn lleol**;*
>
> – *bod gan y plentyn anghenion addysgol arbennig difrifol neu luosog sy’n golygu ei bod yn rhaid cael **rhaglen gyson yn ystod oriau ysgol ac wedi hynny** ac na all y rhieni ddarparu’r rhaglen honno gyda chymorth asiantaethau eraill;*
>
> – *bod gan blentyn sy’n **derbyn gofal** gan yr awdurdod lleol **anghenion cymdeithasol a dysgu cymhleth**, a bod y lleoliad yn cael ei ariannu ar y cyd ag adran y gwasanaethau cymdeithasol;*
>
> – *bod gan y plentyn **anghenion meddygol cymhleth** yn ogystal ag anghenion dysgu na ellir eu rheoli mewn darpariaeth ddydd yn lleol a bod y lleoliad yn cael ei ariannu ar y cyd â’r awdurdod iechyd. (para 8.74) [fy mhwyslais i]*

Mae paragraff 8.75 yn ychwanegu ‘os yw’r amodau hyn yn berthnasol, dylid sefydlu cynllun amlasiantaethol sy’n galluogi ariannu teiran’.

## Rhoi terfyn ar ddatganiadau, eu diwygio neu eu hadolygu

Mae'r Cod yn rhoi canllawiau ar y gweithdrefnau y dylid eu dilyn wrth roi'r gorau i gynnal datganiad (paragraffau 8.117-8.124), diwygio datganiad sy'n bodoli eisoes (paragraffau 8.125-8.133) ac adolygu datganiadau (pennod 9).

Ni ddylid tybio y dylai awdurdod lleol, ar ôl gwneud datganiad, barhau i gynnal y datganiad hwnnw hyd nes na fydd yn gyfrifol mwyach am y person ifanc. Mae'r Cod yn nodi mai **'dim ond pan fydd angen y dylid cynnal datganiadau'** ond mai dim ond os yw 'o'r farn nad yw'n angenrheidiol ei gynnal bellach' y gall yr awdurdod lleol roi'r gorau i'w gynnal (para 8.118). **Mae datganiadau'n mynd yn ddi-rym pan fydd person ifanc yn symud i addysg bellach neu uwch** neu'n gadael yr ysgol yn 16 oed; nid oes angen rhoi'r gorau i gynnal datganiad os bydd yn mynd yn ddi-rym sut bynnag.

Dim ond ar ôl cael gorchymyn gan Dribiwnlys AAA Cymru, os caiff ei gyfarwyddo i wneud hynny gan Weinidogion Cymru, neu yn unol ag Atodlen 27 i *Ddeddf Addysg 1996* y gall awdurdodau lleol **ddiwygio datganiad**. Mae Atodlen 27 yn nodi'r broses y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei dilyn os ydynt am ddiwygio datganiad. Er enghraifft, os bydd awdurdod lleol yn dymuno gwneud hynny ar ôl adolygiad blynyddol dysgwr, rhaid ysgrifennu at y rhieni a rhoi cyfle iddynt gyflwyno sylwadau. Mae'r broses ar gyfer diwygio datganiad ar ôl ailasesiad yr un fath ag wrth wneud datganiad newydd.

Mae paragraff 9.1 o'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i bob datganiad (ac eithrio'r rhai i blant o dan ddwy oed) gael ei **adolygu'n flynyddol**. Gwneir hyn er mwyn i'r awdurdod lleol, yr ysgol, y disgybl a'r rhieni, a phob gweithiwr proffesiynol dan sylw ystyried cynnydd y disgybl yn ystod y 12 mis blaenorol ac a oes angen unrhyw ddiwygiadau. Mae'r Cod yn nodi **pwysigrwydd penodol yr adolygiad blynyddol a gynhelir ym mlwyddyn 9** wrth baratoi ar gyfer cyfnod pontio'r disgybl i addysg bellach, hyfforddiant yn y gwaith, cyflogaeth a bywyd oedolyn. Felly mae paragraff 9.46 yn nodi bod yn **rhaid i'r adolygiad blynyddol ym mlwyddyn 9 gynnwys Gyrfa Cymru**.

# 3. Nifer y dysgwyr ag AAA

Mae tablau 1-4 yn rhoi rhai ystadegau ynglŷn â darpariaeth AAA mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

Mae **tabl 1** yn dangos nifer y dysgwyr ag AAA yng Nghymru, a sawl un ohonynt sy'n cael cymorth o dan bob un o'r tair haen o ymyriadau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae **tabl 2** yn dadansoddi'r data hyn yn ôl awdurdod lleol ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf, sef 2015/16.

Mae **tabl 3** yn dangos nifer y dysgwyr ag AAA fel cyfran o gyfanswm y disgyblion, yn ogystal â sawl un ohonynt sydd wedi cael datganiad fel cyfran o gyfanswm y disgyblion, ac o'r disgyblion ag AAA. Mae **tabl 4** yn dadansoddi data 2015/16 yn ôl awdurdod lleol, sy'n golygu bod modd dadansoddi eu defnydd cymharol o ddatganiadau i ryw raddau.

O'r tablau hyn, gellir gweld y canlynol:

- Yn 2015/16, roedd 105,143 o ddisgyblion ag AAA mewn ysgolion a gynhelir, sef 22.5 y cant o'r holl ddisgyblion.
- Nid oedd gan y mwyafrif (88.2 y cant) o ddisgyblion ag AAA ddatganiad. Roedd 11.8 y cant o ddisgyblion ag AAA wedi cael datganiad.
- Mae cyfran y dysgwyr ag AAA sydd wedi cael datganiad wedi gostwng o flwyddyn i flwyddyn o 13.9 y cant yn 2009/10 i 11.8 y cant yn 2014/15 a 2015/16. Dros yr un cyfnod, mae'r gyfran gyffredinol sydd ag AAA wedi codi o 21.2 y cant i 22.5 y cant.
- Mae cyfran y dysgwyr ag AAA sy'n cael datganiad yn amrywio ymhlith awdurdodau lleol. Er mai 11.8 y cant oedd y cyfartaledd ledled Cymru yn 2015/16, rhoddodd pedwar awdurdod lleol ddatganiadau i fwy na 15 y cant o'u dysgwyr ag AAA, ond defnyddiodd pedwar awdurdod lleol ddatganiadau ar gyfer llai nag 8 y cant.
- Sir Fynwy a oedd â'r gyfran leiaf o ddysgwyr ag AAA (16.7 y cant) ond rhoddodd y gyfran fwyaf o ddatganiadau ymhlith y garfan AAA (15.1 y cant). Ar y llaw arall, Ceredigion (28.7 y cant) a Merthyr Tudful (28.5 y cant) a oedd â'r gyfran fwyaf o ddysgwyr ag AAA ond a roddodd dwy o'r cyfrannau lleiaf o ddatganiadau (5.9 y cant a 7.8 y cant yn y drefn honno).
- Mae hyn yn awgrymu bod awdurdodau lleol yn defnyddio gwahanol ffyrdd o ddiwallu AAA/ADY eu disgyblion, gyda rhai'n cadw'r system sefydledig o ddatganiadau ac eraill yn symud i ffwrdd oddi wrth y dull gweithredu hwn. Dylid nodi bod Estyn wedi dweud 'there is not necessarily a correlation between the percentage of statements and the quality of ALN services being provided'.[10]

[10] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *CYP(4)-24-13: Papur 6 – Estyn* *(PDF 380KB)*, 2 Hydref 2013

## Tabl 1: Nifer y disgyblion ag AAA mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru

*nifer*

| | Gweithredu gan yr Ysgol | Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | Cyfanswm y disgyblion ag AAA ond heb ddatganiad | Datganiadau | Pob disgybl ag AAA |
|---|---|---|---|---|---|
| **2015/16** | **59,502** | **33,207** | **92,709** | **12,434** | **105,143** |
| 2014/15 | 59,245 | 33,275 | 92,520 | 12,437 | 104,957 |
| 2013/14 | 58,146 | 34,627 | 92,773 | 12,530 | 105,303 |
| 2012/13 | 56,000 | 35,053 | 91,053 | 12,738 | 103,791 |
| 2011/12 | 56,511 | 33,429 | 89,940 | 13,098 | 103,038 |
| 2010/11 | 54,468 | 32,055 | 86,523 | 13,407 | 99,930 |
| 2009/10 | 54,256 | 30,981 | 85,237 | 13,767 | 99,004 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, StatsCymru, ***Disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math o ddarpariaeth***

## Tabl 2: Nifer y disgyblion ag AAA mewn ysgolion a gynhelir, yn ôl awdurdod lleol, 2015/16

*nifer*

| | Gweithredu gan yr Ysgol | Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | Cyfanswm y disgyblion ag AAA ond heb ddatganiad | Datganiadau | Pob disgybl ag AAA |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 1,053 | 846 | 1,899 | 300 | 2,199 |
| Gwynedd | 1,646 | 1,668 | 3,314 | 519 | 3,833 |
| Conwy | 1,571 | 1,691 | 3,262 | 324 | 3,586 |
| Sir Ddinbych | 1,757 | 1,797 | 3,554 | 390 | 3,944 |
| Sir y Fflint | 2,730 | 1,156 | 3,886 | 532 | 4,418 |
| Wrecsam | 2,046 | 991 | 3,037 | 529 | 3,566 |
| Powys | 2,186 | 1,307 | 3,493 | 451 | 3,944 |
| Ceredigion | 1,968 | 610 | 2,578 | 161 | 2,739 |
| Sir Benfro | 2,521 | 1,409 | 3,930 | 401 | 4,331 |
| Sir Gaerfyrddin | 4,312 | 2,408 | 6,720 | 910 | 7,630 |
| Abertawe | 5,228 | 2,310 | 7,538 | 1,433 | 8,971 |
| Castell-nedd Port Talbot | 2,831 | 1,721 | 4,552 | 766 | 5,318 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 3,181 | 1,280 | 4,461 | 363 | 4,824 |
| Bro Morgannwg | 2,780 | 1,023 | 3,803 | 391 | 4,194 |
| Caerdydd | 6,778 | 3,031 | 9,809 | 1,596 | 11,405 |
| Rhondda Cynon Taf | 6,494 | 2,367 | 8,861 | 824 | 9,685 |
| Merthyr Tudful | 1,440 | 858 | 2,298 | 195 | 2,493 |
| Caerffili | 3,002 | 2,203 | 5,205 | 698 | 5,903 |
| Blaenau Gwent | 810 | 840 | 1,650 | 293 | 1,943 |
| Torfaen | 1,487 | 1,355 | 2,842 | 224 | 3,066 |
| Sir Fynwy | 1,021 | 617 | 1,638 | 292 | 1,930 |
| Casnewydd | 2,660 | 1,719 | 4,379 | 842 | 5,221 |
| **Cymru** | **59,502** | **33,207** | **92,709** | **12,434** | **105,143** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, StatsCymru, ***Disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math o ddarpariaeth***

## Tabl 3: Cyfrannau disgyblion ag AAA a chyfrannau disgyblion â datganiadau AAA mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru

| | Cyfanswm y disgyblion | Cyfanswm y disgyblion ag AAA | Cyfanswm y disgyblion â datganiadau AAA | Canran cyfanswm y disgyblion sydd ag AAA | Canran cyfanswm y disgyblion sydd wedi cael datganiadau AAA | Canran y disgyblion ag AAA sydd wedi cael datganiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2015/16** | **466,555** | **105,143** | **12,434** | **22.5%** | **2.7%** | **11.8%** |
| 2014/15 | 465,704 | 104,957 | 12,437 | 22.5% | 2.7% | 11.8% |
| 2013/14 | 465,081 | 105,303 | 12,530 | 22.6% | 2.7% | 11.9% |
| 2012/13 | 464,868 | 103,791 | 12,738 | 22.3% | 2.7% | 12.3% |
| 2011/12 | 465,943 | 103,038 | 13,098 | 22.1% | 2.8% | 12.7% |
| 2010/11 | 466,172 | 99,930 | 13,407 | 21.4% | 2.9% | 13.4% |
| 2009/10 | 467,141 | 99,004 | 13,767 | 21.2% | 3.0% | 13.9% |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Llywodraeth Cymru, StatsCymru, ***Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math o ddarpariaeth***, a ***Disgyblion yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a grŵp oedran***

## Tabl 4: Cyfrannau disgyblion ag AAA a chyfrannau disgyblion â datganiadau AAA mewn ysgolion a gynhelir yn ôl awdurdod lleol, 2015/16

| | Cyfanswm y disgyblion | Cyfanswm y disgyblion ag AAA | Cyfanswm y disgyblion â datganiadau AAA | Canran cyfanswm y disgyblion sydd ag AAA | Canran cyfanswm y disgyblion sydd wedi cael datganiadau AAA | Canran y disgyblion ag AAA sydd wedi cael datganiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 9,665 | 2,199 | 300 | 22.8% | 3.1% | 13.6% |
| Gwynedd | 17,039 | 3,833 | 519 | 22.5% | 3.0% | 13.5% |
| Conwy | 15,916 | 3,586 | 324 | 22.5% | 2.0% | 9.0% |
| Sir Ddinbych | 15,655 | 3,944 | 390 | 25.2% | 2.5% | 9.9% |
| Sir y Fflint | 23,649 | 4,418 | 532 | 18.7% | 2.2% | 12.0% |
| Wrecsam | 19,676 | 3,566 | 529 | 18.1% | 2.7% | 14.8% |
| Powys | 17,997 | 3,944 | 451 | 21.9% | 2.5% | 11.4% |
| Ceredigion | 9,539 | 2,739 | 161 | 28.7% | 1.7% | 5.9% |
| Sir Benfro | 17,716 | 4,331 | 401 | 24.4% | 2.3% | 9.3% |
| Sir Gaerfyrddin | 27,108 | 7,630 | 910 | 28.1% | 3.4% | 11.9% |
| Abertawe | 35,818 | 8,971 | 1,433 | 25.0% | 4.0% | 16.0% |
| Castell-nedd Port Talbot | 20,751 | 5,318 | 766 | 25.6% | 3.7% | 14.4% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 22,932 | 4,824 | 363 | 21.0% | 1.6% | 7.5% |
| Bro Morgannwg | 22,184 | 4,194 | 391 | 18.9% | 1.8% | 9.3% |
| Caerdydd | 53,774 | 11,405 | 1,596 | 21.2% | 3.0% | 14.0% |
| Rhondda Cynon Taf | 38,808 | 9,685 | 824 | 25.0% | 2.1% | 8.5% |
| Merthyr Tudful | 8,749 | 2,493 | 195 | 28.5% | 2.2% | 7.8% |
| Caerffili | 28,532 | 5,903 | 698 | 20.7% | 2.4% | 11.8% |
| Blaenau Gwent | 9,318 | 1,943 | 293 | 20.9% | 3.1% | 15.1% |
| Torfaen | 15,013 | 3,066 | 224 | 20.4% | 1.5% | 7.3% |
| Sir Fynwy | 11,547 | 1,930 | 292 | 16.7% | 2.5% | 15.1% |
| Casnewydd | 25,169 | 5,221 | 842 | 20.7% | 3.3% | 16.1% |
| **Cymru** | **466,555** | **105,143** | **12,434** | **22.5%** | **2.7%** | **11.8%** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Llywodraeth Cymru, StatsCymru, ***Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math o ddarpariaeth***, a ***Disgyblion yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a grwp oedran***

## Ysgolion arbennig

Roedd **39 o ysgolion arbennig a gynhelir** yng Nghymru yn **2015/16**[11] â **4,542** o ddisgyblion yn yr ysgolion hyn[12]. Dadansoddir sefyllfa 2015/16 yn ôl pedwar rhanbarth y consortia rhanbarthol fel a ganlyn:

– Canol De Cymru: 1,821 o ddisgyblion mewn 15 o ysgolion arbennig a gynhelir

– De-orllewin a Chanolbarth Cymru: 956 o ddisgyblion mewn 10 o ysgolion arbennig a gynhelir

– De-ddwyrain Cymru: 530 o ddisgyblion mewn 5 o ysgolion arbennig a gynhelir

– Gogledd Cymru: 1,235 o ddisgyblion mewn 9 o ysgolion arbennig a gynhelir

[11] Llywodraeth Cymru, StatsCymru: *Ysgolion yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math o ysgol*
[12] Llywodraeth Cymru, StatsCymru: *Ysgolion yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math o ysgol*

# 4. Ariannu'r ddarpariaeth AAA

## Cyllid i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn defnyddio arian a roddir iddynt o dan y **Grant Cynnal Refeniw** gan Lywodraeth Cymru i ariannu addysg i ddisgyblion ag AAA. Caiff y swm o dan y Grant Cynnal Refeniw a roddir i bob awdurdod lleol er mwyn darparu gwasanaethau ar gyfer ei holl feysydd cyfrifoldeb ei gyhoeddi bob blwyddyn yn y **Setliad Llywodraeth Leol**.

Yn 2016-17, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfanswm o £4.102 biliwn o arian i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw i ddarparu eu holl wasanaethau. Mae hyn **1.3 y cant** (£54 miliwn) yn llai nag yn 2015-16, ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau i mewn i'r setliad.

Mae'r Grant Cynnal Refeniw **heb ei neilltuo**, sy'n golygu bod awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau eu hunain ynghylch faint o arian y byddant yn ei wario ar faes gwasanaeth penodol megis addysg, ac o ganlyniad ar ddarpariaeth AAA er enghraifft. Fodd bynnag, mae setliad y Grant Cynnal Refeniw yn cynnwys **Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion** ar gyfer pob maes gwasanaeth, sy'n gyfrifiad tybiannol o'r hyn y mae angen i bob Cyngor ei wario er mwyn darparu lefel safonol o wasanaeth.[13] Nid yw'n darged gwariant a gall awdurdodau lleol benderfynu faint o arian y maent yn ei wario ar ddarpariaeth AAA er enghraifft, cyhyd ag y bônt yn bodloni unrhyw ofynion statudol sydd arnynt.

Yn 2016-17, yr **Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion ar gyfer 'Addysg Arbennig' yw £215 miliwn**, sy'n debyg iawn i 2015-16. At hynny, bydd rhywfaint o arian y bwriedir ei ddefnyddio ar ddarpariaeth AAA wedi cael ei gynnwys hefyd yn yr Asesiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion ar gyfer 'Meithrin a Chynradd' ac 'Uwchradd'. Yn wir, **cyfanswm y gwariant gros wedi'i gyllidebu ar ddarpariaeth AAA yn 2016-17 yw £362 miliwn**.[14]

Er nad yw'r mwyafrif helaeth o gyllid adnoddau llywodraeth leol yn cael ei neilltuo, mae Llywodraeth Cymru yn dal i dalu rhai grantiau penodol[15] i awdurdodau lleol at ddiben penodol. Mae nifer y grantiau hyn wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf fel rhan o gytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i symud tuag at lai o neilltuo yn gyffredinol a mwy o benderfyniadau lleol ynglŷn â'r defnydd o adnoddau. Ar hyn o bryd, **nid oes unrhyw grantiau penodol yn ymwneud ag AAA.**

Mae rhagor o wybodaeth am y ffordd y caiff ysgolion yng Nghymru eu hariannu ar gael ym mhapur briffio'r Gwasanaeth Ymchwil, **Hysbysiad hwylus ar gyllid ysgolion** (Gorffennaf 2016).

## Trefniadau rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion

Mae awdurdodau lleol yn ariannu darpariaeth AAA drwy'r dulliau canlynol:

– Y **cyllidebau dirprwyedig** y maent yn eu rhoi i ysgolion. Mae hyn yn golygu cyllidebau dirprwyedig i ysgolion arbennig lle y tybir bod yr holl wariant ar AAA a **dyraniadau tybiannol ar gyfer AAA** o fewn y cyllidebau dirprwyedig ar gyfer ysgolion prif ffrwd (tybiannol am mai cyfrifoldeb pob ysgol yw

[13] Rhestrir yr Asesiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion ar gyfer 2015-16 yn nhabl 4d o ***dablau Excel*** y Setliad Llywodraeth Leol sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.
[14] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ystadegol Cyntaf: ***Gwariant wedi'i gyllidebu ar ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA): 2016-17***, 30 Mehefin 2016, t1
[15] Rhestrir grantiau penodol yn Nhabl 9 o ***dablau Excel*** y Setliad Llywodraeth Leol, sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

penderfynu faint yn union y mae'n ei wario ar AAA). Mae cyllid dirprwyedig yn cyfrif am **73 y cant** o gyfanswm y gwariant AAA sydd wedi'i gyllidebu yn 2016-17.

– Drwy arian y maent yn ei **gadw'n ganolog** o fewn Cyllideb Addysg yr Awdurdod Lleol[16] – neu'r Gyllideb Ysgolion. Mae 27 y cant o'r gwariant AAA yn cael ei gadw'n ganolog gan awdurdodau lleol yn 2016-17.

O dan ddarpariaethau ***Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998***, mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r fframwaith cyfreithiol y mae awdurdodau lleol yn dyrannu eu gwariant ar addysg i ysgolion yn unol ag ef. Nodir y fframwaith yn ***Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010***. Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddyrannu gwariant i dair cyllideb, Cyllideb yr Awdurdod Lleol, y Gyllideb Ysgolion a'r Gyllideb Ysgolion Unigol.

Mae rheoliadau 2010 yn nodi bod yn rhaid i'r Gyllideb Ysgolion Unigol gael ei dyrannu ymhlith ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod ar ffurf cyfrannau cyllidebol, gan ddefnyddio fformiwla ariannu a bennir yn lleol. **Mae'n rhaid i 70 y cant o'r arian gael ei ddosbarthu ar sail nifer y disgyblion**. Yn eu fformiwla, gall awdurdodau lleol bwysoli nifer y disgyblion yn ôl nifer o **ffactorau gan gynnwys AAA**.

Mae'r Cod Ymarfer yn nodi'r canlynol mewn perthynas ag ariannu:

> *8.3 Dylai fod gan ysgolion a gynhelir, ac eithrio ysgolion arbennig, rywfaint o arian yn eu cyllideb ddirprwyedig sy'n adlewyrchu anghenion ychwanegol disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig. Maent yn cael yr arian hwn trwy fformiwla ariannu sy'n adlewyrchu nifer yr achosion o AAA, wedi'u mesur mewn gwahanol ffyrdd. (…)*
>
> *8.4 O dan Reoliadau Anghenion Addysgol Arbennig (Darparu Gwybodaeth gan Awdurdodau Addysg Lleol) (Cymru) 2002, mae'n ofynnol i [awdurdodau lleol] gyhoeddi, o fis Ebrill 2002 ymlaen, fanylion o'r mathau o drefniadau cefnogi y gallai* ***ysgolion*** *a gynhelir yn eu hardal* ***ddarparu fel rheol o'u cyllidebau o dan Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy****. Yn ogystal, mae'n ofynnol iddynt gyhoeddi eu cynlluniau eu hunain ar gyfer darparu cefnogaeth AAA briodol - yn enwedig o dan Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy.*
>
> *8.5 Lle bo angen* ***adnoddau ychwanegol*** *i alluogi ysgol i wneud y ddarpariaeth a bennir mewn* ***datganiadau****, gall yr [awdurdod lleol] ddarparu'r adnoddau hynny'n uniongyrchol o'r ddarpariaeth ganolog, datganoli adnoddau wedi'u clustnodi at y diben i ysgolion, neu eu dirprwyo.*
>
> *8.6 Sut bynnag y darperir adnoddau, mae gan ysgolion ac [awdurdodau lleol] ddyletswyddau penodol mewn perthynas â phlant sydd ag anghenion addysgol arbennig a dylai'r cyllid ar gyfer AAA gefnogi'r dyletswyddau hynny. [fy mhwyslais i]*

## Ystadegau ynglŷn ag ariannu

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi **ystadegau blynyddol ar wariant wedi'i gyllidebu ar ddarpariaeth AAA**. Mae tablau 5-7 isod yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am faint o arian a ddyrennir i AAA yng Nghymru.

---

[16] Y term a ddefnyddir mewn deddfwriaeth yw 'cyllideb addysg nad yw ar gyfer ysgolion', gan ei fod yn cyfeirio at gyllid nad yw'n cael ei ddirprwyo'n uniongyrchol i ysgolion. Fodd bynnag, cyfeirir ato'n gyffredinol fel cyllideb yr awdurdod lleol ac roedd yn arfer cael ei alw'n gyllideb yr awdurdod addysg lleol. Mae'r term 'awdurdod lleol' wedi cael ei **ddefnyddio yn lle** 'awdurdod addysg lleol' ers 5 Mai 2010.

Dengys **tabl 5** faint o arian roedd awdurdodau lleol wedi'i gyllidebu ar gyfer darpariaeth AAA fel cyfanswm, yn ogystal â'r swm fesul disgybl (pob disgybl nid dim ond y rhai ag AAA). Mae hyn hefyd yn dangos y gyfradd ddirprwyo, h.y. faint o gyllidebau AAA awdurdodau lleol a gafodd eu trosglwyddo'n uniongyrchol i ysgolion.

Mae **tabl 6** yn dadansoddi'r data hyn yn ôl awdurdod lleol ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf, sef 2016-17. Mae **tabl 7** yn dangos faint y mae pob awdurdod lleol wedi'i gyllidebu ar gyfer AAA ym mhob un o'r saith mlynedd ariannol diwethaf.

O'r tablau hyn, gellir gweld y canlynol:

- **Cyfanswm gwariant wedi'i gyllidebu** ar AAA yn 2016-17 ledled Cymru yw **£361.737 miliwn**. Mae hyn yn gynnydd o 1.5 y cant o'i gymharu â 2015-16.
- Cyllidebwyd **£800 fesul disgybl** ar gyfer AAA (cyfanswm y disgyblion yn hytrach na'r garfan AAA).
- Blaenau Gwent (£1,004), Ynys Môn (£975) ac Abertawe (£944) sydd wedi cyllidebu'r swm mwyaf ar gyfer AAA fesul disgybl yn 2016-17. Bro Morgannwg (£597), Torfaen (£610) a Rhondda Cynon Taf (£629) sydd wedi cyllidebu'r swm lleiaf.
- Y **gyfradd ddirprwyo** ar gyfer gwariant AAA ledled Cymru yn 2016-17 **yw 73 y cant.** Mae hyn yn golygu i £73 o bob £100 a gyllidebwyd ar gyfer AAA gael ei drosglwyddo gan awdurdodau lleol i'r ysgolion eu hunain. Mae'r gyfradd ddirprwyo wedi codi ym mhob un o'r chwe blynedd diwethaf.
- –Sir Ddinbych (91 y cant) sydd wedi dirprwyo'r gyfran fwyaf o'i chyllideb AAA i ysgolion yn 2016-17. Caerffili (54 y cant) sydd â'r gyfradd ddirprwyo isaf.

**Tabl 5: Gwariant gros sydd wedi'i gyllidebu ar ddarpariaeth AAA gan awdurdodau lleol yng Nghymru**

| | £ Miliwn Gwariant gros wedi'i gyllidebu ar ddarpariaeth AAA | £ Gwariant gros wedi'i gyllidebu fesul disgybl ar ddarpariaeth AAA | % a ddirprwywyd i gyllidebau ysgolion unigol |
|---|---|---|---|
| **2016-17** | **361.737** | **800** | **73%** |
| 2015-16 | 356.306 | 789 | 72% |
| 2014-15 | 357.099 | 792 | 70% |
| 2013-14 | (r) 359.217 | 796 | 69% |
| 2012-13 | 346.862 | 769 | 67% |
| 2011-12 | (r) 347.100 | 770 | 60% |
| 2010-11 | 341.755 | 754 | 55% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Datganiadau Ystadegol Cyntaf: Gwariant sydd wedi'i gyllidebu ar gyfer darpariaeth AAA (rhifynnau sawl blwyddyn)

Nodiadau:

a) Mae'n cynnwys dyraniadau tybiannol i ysgolion ar gyfer darpariaeth AAA fel rhan o fformiwlâu awdurdodau lleol ar gyfer dosbarthu arian i ysgolion. Cyfrifoldeb pob ysgol yw penderfynu faint o'i chyllideb ddirprwyedig y bydd yn ei wario ar AAA, a gall y gwariant gwirioneddol fod yn wahanol i'r dyraniadau tybiannol hyn.

b) Mae gwariant £ fesul disgybl yn seiliedig ar y garfan gyfan o ddisgyblion ar y gofrestr yn hytrach na dim ond disgyblion ag AAA.

c) Dyma ffigurau diwygiedig y gwariant gros wedi'i gyllidebu ar gyfer 2013-14 a 2011-12, a gyhoeddwyd fel rhan o ystadegau'r flwyddyn ganlynol. Ni chyhoeddwyd ffigurau diwygiedig ar gyfer y gyfradd £ fesul disgybl na'r gyfradd ddirprwyo, felly mae angen gofal wrth gymharu'r ddau faes hwn â'r cyllidebau gros ar gyfer y blynyddoedd hyn.

## Tabl 6: Gwariant gros sydd wedi'i gyllidebu gan awdurdodau lleol ar ddarpariaeth AAA, 2016-17

| | £ Miliwn Gwariant gros wedi'i gyllidebu ar ddarpariaeth AAA | £ Gwariant gros wedi'i gyllidebu fesul disgybl ar ddarpariaeth AAA | % a ddirprwywyd i gyllidebau ysgolion unigol |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 9.059 | 975 | 64% |
| Gwynedd | 13.663 | 830 | 76% |
| Conwy | 12.436 | 804 | 84% |
| Sir Ddinbych | 11.748 | 773 | 91% |
| Sir y Fflint | 19.607 | 858 | 65% |
| Wrecsam | 16.580 | 881 | 76% |
| Powys | 15.390 | 870 | 73% |
| Ceredigion | 7.618 | 812 | 69% |
| Sir Benfro | 15.231 | 886 | 77% |
| Sir Gaerfyrddin | 20.431 | 759 | 78% |
| Abertawe | 32.493 | 944 | 67% |
| Castell-nedd Port Talbot | 15.696 | 796 | 72% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 19.236 | 838 | 72% |
| Bro Morgannwg | 12.904 | 597 | 83% |
| Caerdydd | 46.416 | 902 | 83% |
| Rhondda Cynon Taf | 24.233 | 629 | 65% |
| Merthyr Tudful | 7.648 | 896 | 74% |
| Caerffili | 18.407 | 674 | 54% |
| Blaenau Gwent | 8.770 | 1,004 | 72% |
| Torfaen | 8.758 | 610 | 78% |
| Sir Fynwy | 8.329 | 736 | 71% |
| Casnewydd | 17.083 | 711 | 68% |
| **Cymru** | **361.737** | **800** | **73%** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Datganiad Ystadegol Cyntaf: **Gwariant sydd wedii gyllidebu ar gyfer darpariaeth AAA 2016-17**, 30 Mehefin 2016

Nodiadau:

a) Mae'n cynnwys dyraniadau tybiannol i ysgolion ar gyfer darpariaeth AAA fel rhan o fformiwlâu awdurdodau lleol ar gyfer dosbarthu arian i ysgolion. Cyfrifoldeb pob ysgol yw penderfynu faint o'i chyllideb ddirprwyedig y bydd yn ei wario ar AAA, a gall y gwariant gwirioneddol fod yn wahanol i'r dyraniadau tybiannol hyn.

b) Mae gwariant £ fesul disgybl yn seiliedig ar y garfan gyfan o ddisgyblion ar y gofrestr yn hytrach na dim ond disgyblion ag AAA.

## Tabl 7: Gwariant gros sydd wedi'i gyllidebu gan awdurdodau lleol ar ddarpariaeth AAA

*£ Miliwn*

| | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 9.259 | 9.500 | 8.675 | (r) 9.775 | 10.069 | 9.811 | 9.059 |
| Gwynedd | 13.197 | 13.359 | 14.032 | 13.938 | 13.776 | 13.494 | 13.663 |
| Conwy | 12.459 | 13.536 | 13.200 | 12.838 | 12.484 | 12.324 | 12.436 |
| Sir Ddinbych | 10.057 | 10.310 | 10.025 | 11.843 | 12.128 | 11.625 | 11.748 |
| Sir y Fflint | 19.785 | 20.666 | 20.000 | 21.030 | 20.419 | 19.043 | 19.607 |
| Wrecsam | 15.002 | 14.721 | 14.601 | 15.467 | 15.462 | 15.563 | 16.580 |
| Powys | 15.647 | 16.735 | 16.410 | 17.167 | 15.468 | 16.279 | 15.390 |
| Ceredigion | 7.877 | 8.511 | 8.962 | 8.614 | 8.520 | 7.834 | 7.618 |
| Sir Benfro | 15.269 | 15.893 | 15.541 | 14.576 | 14.348 | 14.644 | 15.231 |
| Sir Gaerfyrddin | 20.778 | 21.424 | 21.090 | 22.179 | 21.720 | 21.275 | 20.431 |
| Abertawe | 30.658 | 29.981 | 29.577 | 30.448 | 31.322 | 31.828 | 32.493 |
| Castell-nedd Port Talbot | 16.342 | 15.127 | 15.305 | 14.562 | 14.603 | 14.450 | 15.696 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 16.753 | 16.516 | 16.542 | 18.787 | 18.626 | 18.722 | 19.236 |
| Bro Morgannwg | 11.785 | 11.612 | 11.662 | 12.425 | 12.599 | 12.775 | 12.904 |
| Caerdydd | 35.348 | 37.269 | 39.444 | 41.903 | 42.343 | 44.734 | 46.416 |
| Rhondda Cynon Taf | 23.522 | 24.408 | 27.730 | 24.250 | 24.203 | 23.449 | 24.233 |
| Merthyr Tudful | 7.357 | (r) 7.401 | 7.455 | 7.525 | 7.261 | 7.273 | 7.648 |
| Caerffili | 18.808 | 18.364 | 18.311 | 18.949 | 19.370 | 19.029 | 18.407 |
| Blaenau Gwent | 8.795 | 8.776 | 9.196 | 9.541 | 9.171 | 8.998 | 8.770 |
| Torfaen | 8.650 | 8.428 | 8.194 | 8.118 | 7.908 | 8.345 | 8.758 |
| Sir Fynwy | 7.954 | 8.584 | 8.601 | 8.593 | 8.327 | 8.439 | 8.329 |
| Casnewydd | 16.453 | 15.979 | 16.308 | 16.688 | 16.973 | 16.372 | 17.083 |
| **Cymru** | **341.755** | **(r) 347.1** | **346.862** | **(r) 359.217** | **357.099** | **356.306** | **361.737** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Datganiadau Ystadegol Cyntaf: **Gwariant sydd wedii gyllidebu ar gyfer darpariaeth AAA** (rhifynnau sawl blwyddyn)

Nodiadau:

a) Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys dyraniadau tybiannol i ysgolion ar gyfer darpariaeth AAA fel rhan o fformiwlâu awdurdodau lleol ar gyfer dosbarthu arian i ysgolion. Cyfrifoldeb pob ysgol yw penderfynu faint o'i chyllideb ddirprwyedig y bydd yn ei wario ar AAA, a gall y gwariant gwirioneddol fod yn wahanol i'r dyraniadau tybiannol hyn.

c) Dyma ffigurau diwygiedig y gwariant gros wedi'i gyllidebu ar gyfer 2013-14 a 2011-12, a gyhoeddwyd fel rhan o ddatganiad y flwyddyn ganlynol.

# 5. Cyflawniad dysgwyr ag AAA

Mae tablau 8-10 yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am gyflawniad dysgwyr ag AAA yng Nghymru. Mae **tablau 8 a 9** yn cyflwyno ystadegau ynglŷn â chanran yr holl ddisgyblion ag AAA sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig – tabl 8 ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a thabl 9 ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 – yn ogystal â dadansoddi'r rhain ar gyfer pob un o'r tair lefel o ymyriad. Mae **tabl 10** yn cyflwyno ystadegau ar gyflawniad yng Nghyfnod Allweddol 4.

Rhoddir ystadegau ar gyfer pob disgybl hefyd, gan olygu bod modd gwneud rhai cymariaethau rhwng cyflawniad disgyblion ag AAA a'u cyfoedion. Mae'r data'n cwmpasu'r pum mlynedd diwethaf.

O'r tablau hyn, gellir gweld y canlynol:

– Yn 2015, yng Nghyfnod Allweddol 2, cyflawnodd 61.2 y cant o'r holl ddisgyblion ag AAA y Dangosydd Pynciau Craidd (DPC), sef y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg/Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd. Mae hyn yn cymharu ag 87.8 y cant o'r holl ddisgyblion, sy'n golygu bod bwlch o 26.6 pwynt canrannol. Mae'r bwlch hwn wedi lleihau ers 2011, pan gafwyd bwlch o 37.7 pwynt canrannol.

– Yng Nghyfnod Allweddol 3, cyflawnodd 55.2 y cant o'r holl ddisgyblion ag AAA y Dangosydd Pynciau Craidd yn 2015, o'i gymharu ag 84.1 y cant o'r holl ddisgyblion. Mae'r bwlch hwn hefyd wedi lleihau o 41.5 pwynt canrannol yn 2011 i 28.9 pwynt canrannol yn 2015.

– Yng Nghyfnod Allweddol 4, yn 2015, cyflawnodd 23.3 y cant o'r holl ddisgyblion ag AAA drothwy cynwysedig Lefel 2 (5 TGAU neu fwy â gradd A*-C neu gyfwerth, gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a mathemateg). Mae hyn yn cymharu â 58.9 y cant o'r holl ddisgyblion. Mae'r bwlch o 35.6 pwynt canrannol yn debyg yn fras i'r bwlch a gafwyd 2011, sef 35.0 pwynt canrannol.

– Fel y gellid ei ddisgwyl, mae llai o ddisgyblion sydd wedi cael datganiadau yn cyflawni naill ai'r Dangosydd Pynciau Craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, neu drothwy cynwysedig Lefel 2 yng Nghyfnod Allweddol 4, na dysgwyr eraill ag AAA sy'n cael cymorth drwy *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy* neu *Gweithredu gan yr Ysgol*. Yn yr un modd, mae llai o ddisgyblion y mae angen cymorth arnynt drwy *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy* yn cyflawni'r mesurau hyn na'r rhai sy'n cael cymorth o dan *Gweithredu gan yr Ysgol* yn unig. Cyflawnodd 12.5 y cant o'r disgyblion â datganiadau 5 TGAU neu fwy â graddau A*-C neu gyfwerth, gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a mathemateg. Mae hyn yn cymharu â 21.0 y cant ar gyfer *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy* a 27.2 y cant ar gyfer *Gweithredu gan yr Ysgol*.

– Ym mhob un o Gyfnodau Allweddol 2, 3 a 4, llwyddodd y garfan o ddisgyblion ag AAA sy'n destun unrhyw un o'r tair lefel o ymyriad i gyflawni'n well yn 2015 nag mewn unrhyw flwyddyn yn ystod y cyfnod pum mlynedd yr ymchwiliwyd iddo yn y dadansoddiad hwn (gan fynd yn ôl i 2011 a defnyddio'r Dangosydd Pynciau Craidd a'r trothwy cynwysedig Lefel 2).

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r data ar gyfer 2016 ym maes cyflawniad academaidd disgyblion ag AAA ar 28 Ionawr 2017.

### Tabl 8: Cyflawniad Cyfnod Allweddol 2 yn ôl lefel y ddarpariaeth AAA (canran y disgyblion sy'n cyflawni o leiaf y lefel ddisgwyliedig (Lefel 4) mewn asesiadau athrawon)

| | | | Saesneg | Mathemateg | Gwyddoniaeth | CSI (a) | Cymraeg Iaith Gyntaf | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Darpariaeth AAA | Carfan | % | % | % | % | Carfan | % |
| 2015 | Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA | 8,924 | 66.1 | 68.6 | 72.0 | 61.2 | 1,836 | 69.3 |
| | Disgyblion â Datganiad | 966 | 23.4 | 24.4 | 26.4 | 19.0 | 98 | 22.4 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 3,050 | 58.6 | 62.8 | 66.5 | 53.9 | 662 | 59.4 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol | 4,908 | 79.2 | 80.9 | 84.5 | 74.1 | 1,076 | 79.7 |
| | **Pob disgybl (b)** | **32,159** | **89.7** | **90.3** | **91.5** | **87.8** | **6,522** | **90.5** |
| 2014 | Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA | 8,933 | 63.5 | 65.8 | 69.7 | 57.7 | 1,816 | 63.9 |
| | Disgyblion â Datganiad | 986 | 22.9 | 24.4 | 24.1 | 19.7 | 131 | 27.5 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 3,181 | 55.5 | 59.6 | 63.9 | 49.5 | 672 | 52.5 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol | 4,766 | 77.2 | 78.5 | 83.0 | 71.0 | 1,013 | 76.1 |
| | **Pob disgybl (b)** | **31,670** | **88.5** | **89.0** | **90.5** | **86.2** | **6,400** | **88.2** |
| 2013 | Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA | 8,787 | 59.7 | 62.3 | 67.8 | 53.1 | 1,730 | 59.6 |
| | Disgyblion â Datganiad | 950 | 21.1 | 22.1 | 24.1 | 17.3 | 108 | 23.1 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 3,260 | 53.0 | 57.6 | 63.6 | 46.8 | 686 | 45.3 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol | 4,577 | 72.5 | 74.0 | 79.8 | 65.1 | 936 | 74.3 |
| | **Pob disgybl (b)** | **30,896** | **87.2** | **87.6** | **89.8** | **84.4** | **6,188** | **86.7** |
| 2012 | Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA | 8,997 | 54.5 | 60.6 | 65.0 | 49.0 | 1,855 | 55.6 |
| | Disgyblion â Datganiad | 992 | 21.0 | 24.8 | 25.3 | 17.4 | 118 | 25.4 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 3,231 | 46.9 | 54.9 | 59.6 | 42.0 | 696 | 47.8 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol | 4,774 | 66.5 | 72.0 | 76.9 | 60.3 | 1,041 | 64.2 |
| | **Pob disgybl (b)** | **31,807** | **85.3** | **86.9** | **88.7** | **82.7** | **6,451** | **84.1** |
| 2011 | Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA | 8,845 | 49.2 | 55.4 | 60.6 | 42.4 | 1,762 | 50.8 |
| | Disgyblion â Datganiad | 1,066 | 20.0 | 22.3 | 24.0 | 16.4 | 157 | 18.5 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 3,006 | 42.6 | 51.6 | 57.2 | 36.8 | 603 | 40.1 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol | 4,773 | 59.9 | 65.2 | 70.9 | 51.7 | 1,002 | 62.3 |
| | **Pob disgybl (b)** | **32,388** | **83.5** | **85.0** | **87.2** | **80.1** | **6,349** | **82.1** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, *Cyflawniad academaidd yn ôl nodweddion disgyblion*, 28 Ionawr 2016, Tabl 14

Nodiadau:

a) Y Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) yw canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig neu'n uwch mewn Cymraeg (Iaith Gyntaf) neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

b) 'Pob disgybl' yw cyflawniad pob disgybl mewn ysgolion cynradd a gynhelir, ysgolion uwchradd a gynhelir, ysgolion arbennig neu unedau cyfeirio disgyblion y cafodd eu data casglu a chyrhaeddiad ar gyfer y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion neu Addysg Heblaw yn yr Ysgol eu paru'n llwyddiannus o fewn Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion.

### Tabl 9: Cyflawniad Cyfnod Allweddol 3 yn ôl lefel y ddarpariaeth AAA (canran y disgyblion sy'n cyflawni o leiaf y lefel ddisgwyliedig (Lefel 5) mewn asesiadau athrawon)

| | | | Saesneg | Mathemateg | Gwyddoniaeth | CSI (a) | Cymraeg Iaith Gyntaf | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Darpariaeth AAA | Carfan | % | % | % | % | Carfan | % |
| 2015 | Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA | 8,444 | 64.2 | 66.8 | 75.2 | 55.2 | 1,332 | 71.1 |
| | Disgyblion â Datganiad | 1,119 | 27.6 | 29.4 | 36.9 | 21.4 | 90 | 41.1 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 2,455 | 61.3 | 64.2 | 72.8 | 51.6 | 311 | 61.7 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol | 4,870 | 74.1 | 76.6 | 85.2 | 64.8 | 931 | 77.1 |
| | **Pob disgybl (b)** | **31,547** | **88.1** | **88.9** | **92.0** | **84.1** | **5,635** | **90.9** |
| 2014 | Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA | 8,518 | 59.2 | 61.8 | 71.2 | 49.2 | 1,294 | 68.4 |
| | Disgyblion â Datganiad | 1,236 | 24.0 | 27.6 | 32.1 | 19.2 | 101 | 27.7 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 2,523 | 54.3 | 58.3 | 68.7 | 44.7 | 328 | 61.9 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol | 4,759 | 70.9 | 72.5 | 82.7 | 59.4 | 865 | 75.6 |
| | **Pob disgybl (b)** | **32,162** | **86.1** | **86.7** | **90.6** | **81.3** | **5,537** | **90.1** |
| 2013 | Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA | 8,230 | 50.6 | 53.9 | 61.3 | 39.7 | 1,120 | 57.9 |
| | Disgyblion â Datganiad | 1,287 | 20.4 | 25.1 | 29.7 | 16.2 | 119 | 31.1 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 2,526 | 46.1 | 51.4 | 57.6 | 36.2 | 321 | 53.9 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol | 4,417 | 61.9 | 63.6 | 72.7 | 48.6 | 680 | 64.6 |
| | **Pob disgybl (b)** | **33,193** | **83.0** | **84.0** | **87.2** | **77.2** | **5,667** | **87.6** |
| 2012 | Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA | 8,192 | 43.8 | 48.5 | 53.9 | 33.3 | 1,150 | 49.9 |
| | Disgyblion â Datganiad | 1,311 | 18.0 | 21.4 | 24.9 | 13.3 | 111 | 25.2 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 2,599 | 41.1 | 48.2 | 51.4 | 31.3 | 365 | 43.6 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol | 4,282 | 53.3 | 56.9 | 64.3 | 40.7 | 674 | 57.4 |
| | **Pob disgybl (b)** | **34,289** | **79.5** | **81.3** | **83.9** | **72.8** | **5,783** | **84.2** |
| 2011 | Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA | 8,319 | 37.2 | 42.8 | 48.2 | 26.6 | 1,147 | 44.4 |
| | Disgyblion â Datganiad | 1,482 | 17.1 | 20.8 | 24.1 | 11.9 | 124 | 28.2 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 2,572 | 33.8 | 41.2 | 45.3 | 23.7 | 329 | 32.5 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol | 4,265 | 46.1 | 51.3 | 58.4 | 33.4 | 694 | 52.9 |
| | **Pob disgybl (b)** | **35,724** | **76.1** | **78.0** | **80.4** | **68.1** | **5,858** | **81.4** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, ***Cyflawniad academaidd yn ôl nodweddion disgyblion***, 28 Ionawr 2016, Tabl 15

Nodiadau:

a) Y Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) yw canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig neu'n uwch mewn Cymraeg (Iaith Gyntaf) neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

b) 'Pob disgybl' yw cyflawniad pob disgybl mewn ysgolion cynradd a gynhelir, ysgolion uwchradd a gynhelir, ysgolion arbennig neu unedau cyfeirio disgyblion y cafodd eu data casglu a chyrhaeddiad ar gyfer y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion neu Addysg Heblaw yn yr Ysgol eu paru'n llwyddiannus o fewn Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion.

### Tabl 10: Cyflawniad Cyfnod Allweddol 4 yn ôl lefel y ddarpariaeth AAA (canran y disgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd)

| | | | Canran y disgyblion sy'n cyflawni: | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Darpariaeth AAA | Carfan | Trothwy lefel 1 (a) | Trothwy lefel 2 (a) | Trothwy cynwysedig lefel 2 (a) | CSI (b) |
| 2015 | Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA | 7,469 | 88.0 | 64.9 | 23.3 | 22.0 |
| | Disgyblion â Datganiad | 1,086 | 61.5 | 35.5 | 12.5 | 12.2 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 2,183 | 86.1 | 59.8 | 21.0 | 19.7 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol | 4,200 | 95.8 | 75.2 | 27.2 | 25.8 |
| | **Pob disgybl (b)** | **32,580** | **96.3** | **85.8** | **58.9** | **56.2** |
| 2014 | Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA | 7,576 | 86.4 | 60.4 | 19.7 | 18.4 |
| | Disgyblion â Datganiad | 1,118 | 61.4 | 35.2 | 9.3 | 8.6 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 2,450 | 83.3 | 55.8 | 17.3 | 15.8 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol | 4,008 | 95.3 | 70.3 | 24.1 | 22.8 |
| | **Pob disgybl (b)** | **33,708** | **95.8** | **83.9** | **56.2** | **53.9** |
| 2013 | Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA | 7,583 | 82.7 | 50.6 | 16.8 | 15.3 |
| | Disgyblion â Datganiad | 1,239 | 60.5 | 29.0 | 10.6 | 10.2 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 2,461 | 77.9 | 46.0 | 15.5 | 14.1 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol | 3,883 | 92.8 | 60.4 | 19.6 | 17.8 |
| | **Pob disgybl (b)** | **35,154** | **94.7** | **78.9** | **53.2** | **50.1** |
| 2012 | Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA | 7,059 | 79.4 | 41.6 | 16.5 | 15.5 |
| | Disgyblion â Datganiad | 1,173 | 55.8 | 24.2 | 8.4 | 8.4 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 2,108 | 74.3 | 37.3 | 13.9 | 13.1 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol | 3,778 | 89.5 | 49.4 | 20.5 | 19.0 |
| | **Pob disgybl (b)** | **33,770** | **93.6** | **73.8** | **51.5** | **49.7** |
| 2011 | Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA | 6,952 | 75.4 | 33.2 | 15.5 | 14.9 |
| | Disgyblion â Datganiad | 1,221 | 52.9 | 19.7 | 8.7 | 8.5 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 2,040 | 68.1 | 28.4 | 14.3 | 13.9 |
| | Gweithredu gan yr Ysgol | 3,691 | 86.9 | 40.3 | 18.4 | 17.6 |
| | **Pob disgybl (b)** | **34,345** | **92.4** | **68.4** | **50.5** | **49.0** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, *Cyflawniad academaidd yn ôl nodweddion disgyblion*, 28 Ionawr 2016, Tabl 16

Nodiadau:

a) Trothwyon lefel yw cyfanswm neu 'faint' cymwysterau ar lefel benodol ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC). Pennwyd tri throthwy: Lefel 1 - cyfanswm o gymwysterau ar Lefel 1 sy'n gyfwerth â chyfanswm o 5 TGAU ar radd D-G; Lefel 2 - cyfanswm o gymwysterau ar Lefel 2 sy'n gyfwerth â chyfanswm o 5 TGAU ar radd A*-C; Lefel 2 cynwysedig - cyfanswm o gymwysterau ar Lefel 2 sy'n gyfwerth â chyfanswm o 5 TGAU ar radd A*-C yn cynnwys Saesneg/Cymraeg iaith gyntaf a Mathemateg.

b) Y Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) yw canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig neu'n uwch mewn Cymraeg (Iaith Gyntaf) neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

c) 'Pob disgybl' yw cyflawniad pob disgybl mewn ysgolion cynradd a gynhelir, ysgolion uwchradd a gynhelir, ysgolion arbennig neu unedau cyfeirio disgyblion y cafodd eu data casglu a chyrhaeddiad ar gyfer y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion neu Addysg Heblaw yn yr Ysgol eu paru'n llwyddiannus o fewn Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion.

# 6. Adolygiadau blaenorol a diwygiadau arfaethedig

Mae diwygio'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer AAA wedi bod ar yr agenda ers amser yng Nghymru gyda nifer o adolygiadau blaenorol, ymgynghoriadau, datblygiadau ym maes polisi a chynlluniau peilot. Yn fwyaf diweddar, yn 2015, bu Llywodraeth Cymru **yn ymgynghori ar y Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)** a chyhoeddodd God Ymarfer drafft. Mae'r manylion am hyn i'w gweld ym mhennod 7.

Yn ystod y **Pedwerydd Cynulliad** (2011-2016) a **misoedd cyntaf y Pumed Cynulliad** (o fis Mai 2016 ymlaen), aeth Llywodraeth Cymru ati i:

– Gynnal **ymgynghoriad ynghylch cynigion** i ddiwygio'r fframwaith deddfwriaethol (mis Mehefin i fis Hydref 2012);

– Cynnwys newidiadau i AAA ar **lefel ôl-16 yn y** ***Bil Addysg (Cymru)*** (2013-2014) cyn cytuno yn ddiweddarach i'r rhain gael eu **dileu** o'r Bil (ar ôl argymhelliad gan un o Bwyllgorau'r Cynulliad y dylid gweithredu ar y rhain mewn un Bil AAA/ADY);

– **Ymgynghori ar** Bapur Gwyn (mis Mai i fis Gorffennaf 2014) a adeiladodd ar yr ymgynghoriad ddwy flynedd yn gynharach;

– **Cyhoeddi** Bil drafft **i ymgynghori yn ei gylch** (mis Gorffennaf i fis Rhagfyr 2015), y gwnaeth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg **waith craffu cyn deddfu** arno;

– Cyhoeddi **crynodeb o'r ymgynghoriad a'r holl ymatebion unigol**, ochr yn ochr â **datganiad Gweinidogol ar 1 Gorffennaf 2016**;

– Cyhoeddi **datganiad arall ar 14 Gorffennaf 2016** ar yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r Bil (a ddisgwylir cyn diwedd 2016).

Fodd bynnag, mae'r daith adolygu yn dyddio'n ôl lawer cynt gyda dau adroddiad, a gyhoeddwyd yn gymharol fuan ar ôl i'r Cynulliad gael ei sefydlu, yn tynnu sylw at yr angen am newid. Yn 2002, cyhoeddodd y Comisiwn Archwilio *Special Educational Needs: A mainstream issue*, wedi'i ddilyn gan *Cymorth i Blant ag Anghenion Addysgol Arbennig: Trosolwg gan Estyn* (PDF 268KB) yn 2003. Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r datblygiadau ers hynny.

## Ymchwiliad teiran gan Bwyllgor yn yr Ail Gynulliad

Roedd gwella'r ffordd y rheolir AAA yng Nghymru yn destun ymchwiliad teiran a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn yr Ail Gynulliad rhwng 2003 a 2007.

Canolbwyntiodd **rhan gyntaf** yr ymchwiliad, a **gyflwynodd adroddiad ym mis Tachwedd 2004** (PDF 925KB), ar **Adnabod ac Ymyrryd yn Gynnar**, a thynnodd sylw at faterion megis diagnosis hwyr, prinder mawr o therapyddion arbenigol, a'r angen am weithio amlasiantaethol. Gwnaeth y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau 28 o argymhellion, yr ymatebwyd iddynt gan y Gweinidog ar y pryd, Jane Davidson mewn **datganiad ysgrifenedig ar 25 Ionawr 2005** ac wedyn mewn **dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Chwefror 2005** (PDF 588KB).

Canfu **ail ran** ymchwiliad y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, ***Fframwaith Asesu Statudol (Datganiadau),*** **anfoddhad cyffredinol** gyda'r broses datganiadau ond, ar y pryd, ni ddadleuodd o blaid diddymu'r system datganiadau. Cydnabu'r Pwyllgor fod y rhan fwyaf o'r rhai yr ymgynghorwyd â

hwy o blaid cadw rhyw fath o broses datganiadau[17] ond roedd yn awgrymu y gallai hyn adlewyrchu meddylfryd **o blaid y cyfarwydd yn hytrach nag ansicrwydd y newydd**.[18]

Cyflwynodd y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau **adroddiad ar ddatganiadau ym mis Mai 2006** (PDF 262KB), gan wneud 28 o argymhellion. Ymatebodd Jane Davidson ar ran Llywodraeth Cymru mewn **datganiad ysgrifenedig ar 28 Mehefin 2006** cyn **dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Gorffennaf 2006** (PDF 660KB).

Mae rhai o'r casgliadau a'r argymhellion a luniwyd gan y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn 2006 yn parhau i fod yn berthnasol iawn heddiw. Canfu'r Pwyllgor fod y broses datganiadau yn **gostus ac yn gymhleth** ac y gall **greu rhwystrau** rhwng rhieni, athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill. Daeth i'r casgliad hefyd fod gofyn i ddatganiadau, oherwydd adnabyddiaeth well o ystod ehangach o anhwylderau, wneud tasg – sef asesu anghenion grŵp eang iawn o blant â mathau gwahanol iawn o anghenion – na fwriadwyd iddynt ei gwneud ac na chawsant eu cynllunio i'w gwneud.

Felly argymhellodd y Pwyllgor y dylid **cyfyngu datganiadau i blant** sydd â'r anghenion **mwyaf difrifol a chymhleth** ac y dylid eu disodli'n raddol i'r rhan fwyaf o blant. Argymhellodd hefyd y dylid symud i ffwrdd oddi wrth y term 'Anghenion Addysgol Arbennig' a **mabwysiadu 'Anghenion Addysgol Ychwanegol'** yn ei le.

Hyd yn oed yn ôl yn 2006, **roedd anghysondeb o ran defnydd awdurdodau lleol o ddatganiadau** yn broblem a dywedodd y Pwyllgor fod angen i'r trefniadau ynglŷn â datganiadau gael eu defnyddio mewn ffordd fwy cyson. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd y dylid symud tuag at **'gofnod o angen wedi'i asesu'n barhaus'**, y gellir ei weld bellach yn yr hyn a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei hymgynghoriad yn 2012, yn ei Phapur Gwyn yn 2014 ac yn y Bil drafft dilynol. Croesawodd Jane Davidson yr adroddiad, gan ddweud wrth Aelodau fod 'tystiolaeth yr adolygiad hwn wedi bod yn sail imi ddatblygu gwaith pellach ar newidiadau yn y fframwaith asesu statudol presennol'.

Ceisiodd y canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru sawl mis yn ddiweddarach ym mis Tachwedd 2006, **ymgorffori'r cysyniad o 'Anghenion Dysgu Ychwanegol'** drwy fabwysiadu'r term hwn 'wrth ddelio â'r dysgwyr hynny sydd ag anghenion mwy na mwyafrif eu cyfoedion'. Felly, mae'r ffocws ar Anghenion Addysgol Ychwanegol (ADY) yn hytrach nag ar Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn gymharol sefydledig o safbwynt ymarferol a pholisi, os nad o safbwynt y gyfraith eto.

Edrychodd **trydedd rhan** ymchwiliad y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar ***drosglwyddo*** ac anghenion penodol pobl ifanc ag AAA wrth iddynt adael addysg uwchradd a symud ymlaen i addysg bellach neu uwch, hyfforddiant neu gyflogaeth. Gwnaeth y Pwyllgor 47 o argymhellion yn ei **adroddiad ym mis Mawrth 2007** (PDF 2.90MB). Mynegodd bryder ynglŷn â **diffyg cydlynu** rhwng asiantaethau, er gwaethaf cryn dipyn o ganllawiau. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid penodi **'gweithwyr allweddol'** er mwyn helpu i atgyfnerthu'r cymorth a oedd ar gael, a **'gwasanaethau eirioli annibynnol'** er mwyn helpu i sicrhau y caiff pobl ifanc wybodaeth lawn am y dewisiadau sy'n eu hwynebu a'u bod yn eu deall.

Ymatebodd Jane Davidson ar ran Llywodraeth Cymru mewn **datganiad ysgrifenedig ar 21 Mawrth 2007**, gan dderbyn pob un o'r argymhellion yn llawn, yn rhannol neu mewn egwyddor.

---

[17] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, ***Adolygiad Polisi o Anghenion Addysgol Arbennig Rhan 2: Fframwaith Asesu Statudol (Datganiadau)*** (PDF 262KB), Mai 2006, Rhagair y Cadeirydd
[18] ***Ibid,*** t7

## Datblygiadau yn y Trydydd Cynulliad

Yn fuan yn ystod y Trydydd Cynulliad, yn ystod haf a hydref 2007, cynhaliodd Llywodraeth Cymru **ymgynghoriad â rhieni a rhanddeiliaid yn dwyn y teitl *Datganiadau neu rywbeth gwell?.*** Ceisiodd yr ymgynghoriad rhagarweiniol hwn farn ar ddiwygiadau posibl i'r fframwaith deddfwriaethol a'i nod oedd ennyn hyder a chytundeb ynglŷn â'r ffordd ymlaen. Roedd yn seiliedig ar ddogfen (a oedd hefyd yn dwyn y teitl 'Datganiadau neu rywbeth gwell?') a luniwyd gan Grŵp Gorchwyl a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru. Nodwyd tri opsiwn ar gyfer newid.

Mewn dogfen a baratowyd gan Is-adran Anghenion Ychwanegol a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2007, crynhowyd barn rhieni ar bob opsiwn. Yn ôl y ddogfen hon, 'lleisiodd llawer o rieni **bryderon ynghylch newidiadau posibl**', ond '**mae'r anfodlonrwydd a fynegwyd ynghylch y sefyllfa gyfredol** yn ymwneud nid yn unig â'r prosesau statudol o lunio a diwygio'r datganiad, ond hefyd â darparu ... mewn ysgolion prif ffrwd'.[19]

Roedd **y cyfyng gyngor a wynebai llunwyr polisi** yn amlwg o ddogfen Llywodraeth Cymru sy'n crynhoi'r cynnydd hyd hynny a'r camau nesaf (Mai 2008). Roedd yn amlwg bod y system gyfredol yn ddiffygiol a bod pobl yn anfodlon ond roedd nerfusrwydd ynglŷn â cholli'r hyn a oedd yn dda yn y system a phryder ynglŷn â'r hyn a ddylai gymryd ei lle:

> *Y farn gyffredinol oedd bod y **fframwaith cyfredol yn cynnig y rhan fwyaf o'r hyn sydd ei angen** mewn fframwaith statudol ar gyfer plant a phobl ifanc ag AAA a chyda rhai gwelliannau gellid sicrhau ei fod yn "addas i'r diben" ac yn llai biwrocrataidd ac yn llai "meddygol" o ran ei ddull gweithredu. Roedd cytundeb cyffredinol y gellid mabwysiadu dull gweithredu llai biwrocrataidd ar gyfer grŵp ehangach o ddysgwyr ag anghenion ychwanegol.*
>
> *Fodd bynnag, mae mwyafrif llethol y cyfranogwyr ledled Cymru yn gryf iawn o'r farn nad yw'r **system gyfredol yn gweithio fel y dylai** a cheir anghysonderau mawr o ran y modd y'i gweithredir mewn [awdurdodau lleol] ac ysgolion prif ffrwd. At ei gilydd nid oedd gan y rhieni a'r gofalwyr hynny a fu'n bresennol yn y digwyddiadau ymgynghori lawer o ffydd yr ymdrinnir â hwy yn deg ac y caiff anghenion eu plant eu diwallu'n briodol.*
>
> *(…)*
>
> *Yn gyffredinol, oherwydd y darlun cliriach y mae'r ymgynghoriad hwn yn ei ddarparu, mae'n **anodd dychmygu na wneir unrhyw newid** neu nad eir i'r afael ag unrhyw un o'r materion allweddol a nodwyd. At hynny ymddengys ei bod **yn anodd ymgymryd â newidiadau mawr ar raddfa eang** cyn sicrhau yn gyntaf bod y system gyfredol yn gweithio yn fwy effeithiol a meithrin ymddiriedaeth rhieni a gofalwyr.*[20]

Wedi hynny, sefydlodd Llywodraeth Cymru **bedwar prosiect peilot ADY** yn 2009 er mwyn **datblygu a phrofi dulliau amgen** yn lle'r fframwaith statudol presennol o ddatganiadau AAA. Ymhlith yr agweddau a dreialwyd roedd **Cynllun Datblygu Unigol (CDU)** sy'n nodi anghenion unigolyn a'r camau gweithredu i'w gynorthwyo o fewn **dull gweithredu system gyfan (0-25 oed)**.

---

[19] Is-adran Anghenion Ychwanegol a Chynhwysiant Llywodraeth, Datganiadau neu rywbeth gwell? Ymgynghoriad rhagarweiniol ar opsiynau ar gyfer newid i'r fframwaith asesiadau a datganiadau AAA statudol: Crynodeb o farn rhieni, Medi 2007

[20] Llywodraeth Cymru, Datganiadau neu rywbeth gwell: Crynodeb o'r cynydd a wnaed hyd yma a'r camau nesaf, Mai 2008, t4

Roedd pob un o'r pedwar cynllun peilot yn cynnwys dau awdurdod lleol, gan ganolbwyntio ar y canlynol:

– Contractiwyd **cynllun peilot A** i ddatblygu model ar gyfer **sicrhau ansawdd** darpariaeth a wneir ar gyfer plant a phobl ifanc ag AAA. Roedd y gwaith yn cynnwys tri maes craidd, sef datblygu **mesurau deilliannau**; darparu adnodd mapio ar gyfer **cysylltu data ar fewnbynnau a deilliannau**; a **phecyn cymorth hunanwerthuso** i ysgolion. (Caerffili a Sir y Fflint)

– Contractiwyd **cynllun peilot B** i ddatblygu a threialu fframwaith ar gyfer nodi, asesu, cynllunio ac adolygu darpariaeth ar gyfer ADY **difrifol a chymhleth**. Roedd hyn yn cynnwys datblygu **CDU**; strwythurau a phrosesau ar gyfer **gweithio amlasiantaethol a phenderfyniadau ynglŷn â chyllid**; a **gwybodaeth i deuluoedd** a gwasanaethau cymorth a dulliau o **ddatrys anghydfodau**. (Sir Gaerfyrddin a Thorfaen)

– Contractiwyd **cynllun peilot C** i ddatblygu a threialu fframwaith nodi, asesu, cynllunio ac adolygu ar gyfer ADY **nad ydynt yn ddifrifol na chymhleth**. Fel yn achos Cynllun Peilot B, roedd hyn yn cynnwys datblygu **CDU**, **gwasanaethau cymorth a gwybodaeth i deuluoedd** a dulliau o **ddatrys anghydfodau**. At hynny, cafodd system ei threialu hefyd ar gyfer hwyluso'r **broses o wella** darpariaeth ADY ysgolion. (Pen-y-bont ar Ogwr a Sir Benfro gyda rhywfaint o ymwneud yn Nhorfaen)

– Contractiwyd **cynllun peilot D** i ddatblygu a diffinio **rôl y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol** a datblygu a threialu **cwrs achrededig** ar gyfer y swydd hon. (Caerdydd a Chasnewydd)

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am y prosiectau peilot mewn dogfennau a gyhoeddwyd fel rhan o'r ymchwil i lywio'r gwerthusiad o'r cynlluniau peilot. Maent ar gael ar **wefan Llywodraeth Cymru**

Nododd yr adroddiad cryno ar y gwaith ymchwil:

> *Mae gan rieni a gofalwyr bryderon sylweddol ynghylch statws cyfreithiol CDU, a ph'un a fyddant yn colli'r* ***diogelwch cyfreithiol*** *a ddarperir gan Ddatganiad o AAA.*[21]

Nododd yr adroddiad hefyd:

> *Fodd bynnag, wrth wraidd y diwygiadau mae* ***tensiwn rhwng y dyhead*** *i bennu'r hyn y dylid ei wneud a sut y dylid ei wneud er mwyn* ***sicrhau ansawdd a chynyddu cysondeb***, *a'r* ***angen i rymuso ymarferwyr a rhoi'r hyblygrwydd*** *iddynt ymateb i anghenion a diddordebau unigolion.*[22] *[fy mhwyslais i ym mhob achos]*

## Ymgynghoriad 2012

Cynhaliwyd ymgynghoriad yn dwyn y teitl ***'Ymlaen mewn partneriaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol: Cynigion ar gyfer diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghenion addysgol arbennig'*** gan Lywodraeth Cymru rhwng 26 Gorffennaf a 19 Hydref 2012. Cynigiodd hyn **y dylid symud i ffwrdd oddi wrth y fframwaith cyfreithiol o seilio darpariaeth ar ddatganiadau AAA a thuag at gysyniad ehangach o 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' (ADY)** sy'n seiliedig ar ddeddfwriaeth.

---

[21] Yr Uned Pobl a Gwaith (Ymchwil ar ran ac a gyhoeddwyd gan Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru), ***Adroddiad Cryno ar yr Ymchwil i'r Cyfnod Profi wedi'i Ehangu ar gyfer CDU***, 2014, t14

[22] ***Ibid***, t18

O dan system o'r fath, nid **datganiadau** fyddai'r ffactor pwysig o ran pennu lefel darpariaeth bellach a byddant yn cael eu **disodli gan Gynlluniau Datblygu Unigol (CDU)**. Ar hyn o bryd, dim ond disgyblion ag AAA sydd wedi cael datganiadau sydd â'r hawl statudol i gael darpariaeth ychwanegol, ond byddai'r newidiadau a gynigir yn rhoi hawl statudol i **bob plentyn ag AAA gael CDU**.

Nod hyn yn rhannol fydd **mynd i'r afael â'r ddibyniaeth ar ddatganiadau fel yr unig ffordd ganfyddedig** o sicrhau darpariaeth. Fel y nododd Llywodraeth Cymru yn sgil yr ymgynghoriad â rhieni, *Datganiadau neu rywbeth gwell?*:

> *Roedd teimlad cryf mai'r agwedd ar y trefniadau cyfredol* ***a werthfawrogir fwyaf*** *yw'r* ***diogelwch cyfreithiol a roddir gan ddatganiad****. Roedd y rhieni hynny yr oedd eu plant yn cael eu diogelu gan ddatganiad am ei gadw ac roedd y rhieni hynny nad oes gan eu plant ddatganiad ar hyn o bryd am gael un.*[23] *[fy mhwyslais i]*

Yn gyffredinol, nododd ymgynghoriad 2012 gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddeddfu er mwyn:

- Rhoi **statws cyfreithiol** i'r cysyniad o **anghenion ychwanegol** (AY);[24]
- **Cyflwyno Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) integredig** newydd i blant a phobl ifanc **yn lle datganiadau AAA**;
- Nodi sut y bydd cynlluniau integredig â phawb **rhwng 0 a 25 oed** sy'n perthyn i'r gwahanol categorïau angen;
- Nodi'r **dyletswyddau sydd i'w gosod ar gyrff perthnasol** (megis awdurdodau lleol a'r GIG);
- Nodi'r **broses o ddatrys** unrhyw anghydfodau;
- Gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi **cod ymarfer** ar gyfer y fframwaith statudol newydd;
- Gosod dyletswydd ar gyrff perthnasol i **gydweithredu** mewn perthynas â darpariaeth AY;
- Trosglwyddo'r **cyfrifoldeb am asesu** a darpariaeth **ôl-16** ar gyfer dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD) i **awdurdodau lleol** (ar hyn o bryd Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am hynny). Byddai'r term AAD ar gyfer pobl 16-25 oed yn cael ei **gwmpasu o fewn un system ADY 0-25 oed**.

Mewn ***datganiad gan y Cabinet ar 17 Gorffennaf 2013***, dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis, fod y **mwyafrif o'r ymatebwyr wedi cytuno** ag egwyddorion y cynigion, ond cydnabu fod llawer o'r rhai a ymatebodd wedi **gofyn am ragor o fanylion**. Ychwanegodd y byddai ei swyddogion yn ceisio barn rhanddeiliaid cyn paratoi dogfen ymgynghori arall, a ddaeth ar ffurf Papur Gwyn yn 2014.

## Asesu ôl-16/darpariaeth ôl-16 a'r Bil Addysg (Cymru)

Roedd canfyddiadau trydedd rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar ***Drosglwyddo*** (PDF 2.90MB) yn cynnwys yr **angen i gael dull gweithredu a oedd yn canolbwyntio'n well ar y dysgwr** a **rhannu gwybodaeth a chydweithredu yn well** rhwng asiantaethau. Nododd y Pwyllgor fod y system yn rhy gymhleth ac nad oedd yn canolbwyntio digon ar y dysgwr.

---

[23] Llywodraeth Cymru, ***Datganiadau neu rywbeth gwell: Crynodeb o'r cynydd a wnaed hyd yma a'r camau nesaf,*** Mai 2008, t4

[24]Yn ddiweddarach penderfynodd Llywodraeth Cymru droi'n ôl at gynnig y term 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' yn sgil pryderon nad oedd gan 'Anghenion Ychwanegol' ddigon o ffocws addysgol.

Yn y Trydydd Cynulliad, ystyriodd y **Pwyllgor Menter a Dysgu ddwy ddeiseb yn 2009** a oedd yn ymwneud â myfyrwyr ôl-19 ag anghenion dysgu ychwanegol ac a dynnodd sylw hefyd at ddiffygion o ran pontio rhwng cyfnodau addysg. Yn ei ***adroddiad canlynol*** (PDF 68.8KB), cyfeiriodd y Pwyllgor at gorff o dystiolaeth sy'n argyhoeddi bod **angen i waith cynllunio ar gyfer pontio ddigwydd yn gynharach** nag yr ymddengys ei fod yn digwydd ar hyn o bryd yn y rhan fwyaf o achosion.

Yn 2010, canfu **Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol na allai'r system bresennol barhau** ac nad oedd **gwahanu cyllid oddi wrth benderfyniadau rheoli yn gynaliadwy**. Yn ei **adroddiad,** argymhellodd y Grŵp y dylai awdurdodau lleol ymgymryd â'r cyfrifoldebau yn y meysydd hyn. Dywedodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddarach 'yn y pen draw roedd neges glir gan y grŵp y gallai'r dysgwr fod ar ei ennill pe byddai'r ddarpariaeth yn cael ei chynllunio'n well'.[25]

Darparodd ***Bil Addysg (Cymru)***, a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2013, **y dylid rhoi'r ddyletswydd o asesu anghenion dysgwyr** ôl-16 i awdurdodau lleol. Byddent yn gyfrifol am ddarpariaeth lle'r oedd hyn yn gofyn am ddarpariaeth arbenigol a/neu breswyl. Ar hyn o bryd, byddai colegau addysg yn gyfrifol lle y gallent ddiwallu anghenion y dysgwr.

Dadleuodd Llywodraeth Cymru y byddai'r trefniadau hyn yn sicrhau mwy o barhad gan mai awdurdodau lleol sydd eisoes yn gyfrifol am ddysgwyr hyd at 16 oed ac y byddai'n golygu mai'r **un asiantaeth fyddai'n gyfrifol am asesu anghenion a'r ddarpariaeth** i'w diwallu.

Awgrymodd tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wrth iddo graffu ar y Bil y byddai'n **well pe bai'r newidiadau i ddarpariaeth AAA ar lefel ôl-16 yn cael eu gwneud fel rhan o Fil cyffredinol** yn diwygio darpariaeth AAA/ADY. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid dileu'r diwygiadau i AAA ym *Mil Addysg (Cymru)* ac, yn lle hynny, eu cyflwyno mewn un darn cyfannol o ddeddfwriaeth. Derbyniodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd yr argymhelliad hwn a chafodd ***Bil Addysg (Cymru)*** **ei ddiwygio i ddileu'r darpariaethau AAA**. Dywedodd y Gweinidog mewn **datganiad gan y Cabinet ar 6 Ionawr 2014** y byddai'r darpariaethau ôl-16 yn cael eu gweithredu bellach mewn deddfwriaeth **'gydlynol a chyfannol'**.[26]

## Papur Gwyn 2014

Ar 22 Mai 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Bapur Gwyn yn nodi ei chynlluniau ar gyfer deddfwriaeth newydd** ynglŷn â diwallu ADY yng Nghymru.

Yn fras, y cynigion oedd:

- **Cyflwyno** cysyniad cyfreithiol mwy hyblyg a chynhwysol o **Anghenion Dysgu Ychwanegol** (ADY) yn lle'r diffiniad statudol presennol o **Anghenion Addysgol Arbennig** (AAA); a
- **Chyflwyno Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU)** yn lle datganiadau AAA fel y sail dros ddiwallu ADY plentyn neu berson ifanc.

Drwy'r diwygiadau a amlinellir yn y Papur Gwyn, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn awyddus i **ddwyn ynghyd y diffiniadau deddfwriaethol a statudol** ar gyfer plant **o dan 16 oed**, y dywedir bod ganddynt AAA, a dysgwyr **ôl-16** mewn addysg bellach, yr ystyrir bod ganddynt 'anawsterau a/neu anableddau dysgu'. Byddai Bil ADY felly'n ceisio sicrhau **mwy o gydweithredu** rhwng addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a **gwella hawliau a phrofiadau teuluoedd** wrth iddynt wneud cais am ymyriadau.

---

[25] ***Memorandwm Esboniadol (fel y'i cyflwynwyd),*** *Bil Addysg (Cymru)*, t26

[26]Am fwy o wybodaeth ar y mater hwn, gweler erthygl blog y gwasanaeth ymchwil ***Diddymu Anghenion Addysgol Arbennig o Fil Addysg (Cymru),*** 7 Ionawr 2014

Yn ei Ragair i'r Papur Gwyn, nododd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, Huw Lewis, yn ddigamsyniol fod angen newid cynhwysfawr, gan ddweud nad yw'r system bresennol **'bellach yn addas i'w diben'** a chydnabod y gellid ei gweld fel **system sy'n 'gymhleth, yn ddyrys ac yn wrthwynebol'**.

> *Mae'r dystiolaeth yn disgrifio proses asesu sy'n aneffeithlon, yn fiwrocrataidd ac yn gostus ac nad yw'n canolbwyntio'n ddigonol ar y plentyn nac yn ddigon syml i'w defnyddio. Weithiau caiff anghenion eu nodi'n hwyr ac nid yw ymyriadau'n cael eu cynllunio na'u gweithredu'n brydlon nac yn effeithiol. Dywed teuluoedd fod yn rhaid iddynt frwydro i sicrhau'r gefnogaeth gywir ar gyfer eu plentyn ymhob cam o'r system ac nad ydynt yn gwybod at bwy y gallant droi i gael cyngor a gwybodaeth.*[27]

Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi myfyrio'n ofalus ar yr ymatebion a gyflwynwyd i'w hymgynghoriad yn 2012. Pwysleisiodd y Gweinidog ar y pryd bod y cynigion yn feiddgar ac yn radical, ond y byddent er hynny yn seiliedig ar arfer da a oedd eisoes yn bodoli. Dywedodd Huw Lewis:

> *Byddai rhai o'r darpariaethau deddfwriaethol a gynigir yn golygu newid sylweddol i'r fframwaith statudol tra byddai eraill yn adeiladu ar gryfderau sydd eisoes i'w cael. Mewn achosion eraill, byddant yn adeiladu ar gryfderau presennol. Yr egwyddor sy'n sail i'n gwaith yw* ***y dylai'r hyn sy'n gweithio gael ei gadw a'i gryfhau; dylai'r hyn nad yw'n gweithio gael ei addasu a'i ddisodli.***[28] *[fy mhwyslais i]*

## Cynllunio'r gweithlu

Ym mis Tachwedd 2013, comisiynodd Llywodraeth Cymru yr Uned Pobl a Gwaith i wneud ***Asesiad o ofynion datblygu'r gweithlu anghenion addysgol arbennig***, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015. Nod yr asesiad oedd gweld beth yw sylfaen sgiliau cyfredol y gweithlu addysg ym maes cefnogi plant a phobl ifanc ag AAA, a nodi a blaenoriaethu anghenion datblygu.

Hefyd, comisiynwyd yr Uned Pobl a Gwaith ym mis Mai 2014 i ystyried ***Gwasanaethau arbenigol ym maes anghenion addysgol arbennig - Cynllunio'r gweithlu*** (a gyhoeddwyd ym mis Medi 2015). Nod yr astudiaeth oedd gweld beth yw'r gofynion capasiti presennol ac yn y dyfodol ar gyfer awdurdodau lleol a gwasanaethau arbenigol y GIG, ac ystyried blaenoriaethau cynllunio'r gweithlu.

## Y penderfyniad i gyflwyno Bil drafft

Roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Bil yn haf 2015. Penderfynodd y Gweinidog ar y pryd **ohirio hyn er mwyn cynnal ymgynghoriad arall**, a hynny ar Fil drafft y tro hwn. Dywedodd Huw Lewis bod 'cynnwys y proffesiwn o'r dechrau'n deg wrth gyflwyno newidiadau yn hanfodol yn hytrach na chyflwyno iddynt ar y funud olaf, a hynny heb eu cynnwys'. Achosodd hynny iddo benderfynu bod angen '(c)ynnwys cam ychwanegol a phwysig yn ein proses ddiwygio'.[29] Ar **23 Mehefin 2015**, dywedodd wrth Aelodau'r Cynulliad fod angen diwygio ADY **yng nghyd-destun newidiadau sylweddol** i'r cwricwlwm, hyfforddiant cychwynnol athrawon a datblygiad proffesiynol y gweithlu addysg. Dywedodd Huw Lewis:

---

[27] Llywodraeth Cymru, ***Cynigion deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol – Papur Gwyn***, Mai 2014, t2
[28] ***Ibid***
[29] Gweler blog y Gwasanaeth Ymchwil, **Y Gweinidog i esbonio'r oedi gyda'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol i Aelodau**, 19 Mehefin 2015

*O ganlyniad, ni ellir ystyried ein gwaith diwygio arfaethedig o'r system ar gyfer cynorthwyo plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ar wahân. Mae'n rhan annatod o agenda diwygio llawer ehangach. (…)*

*Un o'r themâu cyson sydd ym mhob rhan o'r agenda hon yw bod angen i ni sicrhau ein bod yn dod â'r gweithlu gyda ni wrth i ni gyflwyno'r newidiadau. (...)*

*Rwyf eisiau mwy na dim ond cydymffurfio deddfwriaethol ar gyfer ein plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Rwyf eisiau i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn ein hysgolion a'n colegau gofleidio eu hanghenion mewn ffordd ystyrlon a chyfannol, nid dim ond o fewn ffiniau'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.*

# 7. Y Bil drafft

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y **Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)** ar 6 Gorffennaf 2015. Ochr yn ochr â hyn, cafwyd **datganiad Cabinet** gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, Huw Lewis. Parhaodd y cyfnod ymgynghori tan 18 Rhagfyr 2015.

Roedd y Bil drafft yn amlinellu **fframwaith cyfreithiol newydd** ar gyfer 'Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)' gyda Chynlluniau Datblygu Unigol ar gyfer pob dysgwr ag ADY hyd at 25 oed. Byddai hyn yn disodli'r system bresennol o 'Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)', sy'n darparu cymorth graddedig drwy ymyriadau a arweinir gan yr ysgol neu drwy ddatganiadau a roddir gan yr awdurdod lleol (fel y disgrifir ym mhennod 2 o'r papur hwn).

Dywedodd Llywodraeth Cymru fod gan y ddeddfwriaeth ddrafft dri amcan polisi cyffredinol, sef creu:

- **Fframwaith deddfwriaethol unedig** i gynorthwyo plant a phobl ifanc rhwng **0 a 25 oed sydd ag ADY** mewn ysgolion ac mewn addysg bellach *(yn hytrach na'r system AAA bresennol ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 16 oed a'r system Anawsterau a/neu Anableddau Dysgu (AAD) ar gyfer pobl ifanc dros 16 oed, sy'n cael eu cynnwys o dan ddeddfwriaeth wahanol ar hyn o bryd);*
- **Proses integredig a chydweithredol** o asesu, cynllunio a monitro gydag **ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol** (*gan gynnwys dyletswyddau ar fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol i gydweithio â'i gilydd i ddiwallu anghenion pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY drwy baratoi Cynllun Datblygu Unigol*);
- System **deg a thryloyw** o ddarparu gwybodaeth a chyngor, ac o ymdrin â phryderon ac achosion o apêl (**gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i osgoi ac ymdrin ag anghytundebau, gan ddiwygio system a ddisgrifiwyd fel un 'gymhleth, ddryslyd a gwrthwynebol'**).[30]

Hefyd, ym mis Hydref 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ddrafft gwaith o'r Cod ADY newydd** (PDF 987KB) 'at ddibenion enghreifftiol', gyda'r bwriad iddo lywio'r ymgynghoriad a sicrhau gwell dealltwriaeth o'r Bil drafft.

Esboniodd **y Memorandwm Esboniadol drafft** (PDF 1.21MB) i'r Bil fod y fframwaith deddfwriaethol presennol yn seiliedig ar fodel a gyflwynwyd dros 30 mlynedd yn ôl, nad yw bellach yn addas i'r diben. Roedd paragraff 3.2 yn rhestru **19 o wendidau'r system gyfredol**, a thynnwyd sylw at rai ohonynt yn 2014 yn ymgynghoriad Papur Gwyn Llywodraeth Cymru. Mae'r gwendidau hyn yn cynnwys: stigma y derminoleg gyfredol; anghysondeb a dryswch ynghylch y defnydd o ddatganiadau; problemau trosglwyddo i ddarpariaeth ôl-16; gwendidau mewn gwaith aml-asiantaeth; ymyriadau diangen o hwyr; a phroses wrthwynebol sy'n wynebu rhieni (nid yw rhestr yr awdur yn cwmpasu popeth).

Defnyddiodd **ddeg nod craidd** i fframio'r Bil drafft. Roedd gwybodaeth yn y Memorandwm Esboniadol drafft ynglŷn â diben ac effaith y Bil drafft felly wedi'i strwythuro o amgylch y deg nod craidd hwn (paragraffau 3.4-3.14 a 3.50-3.94). Isod, mae'r papur hwn yn nodi'r deg nod craidd o fewn y tri amcan cyffredinol.

---

[30] Rhestrwyd yr amcanion hyn ym mharagraff 3.3 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil drafft ac fe'u nodwyd yn wreiddiol ym Mhapur Gwyn 2014. Llythrennau italig gan yr awdur hwn.

## Cynigion ar gyfer un fframwaith cyfreithiol rhwng 0 a 25 oed (amcan cyffredinol)

### Cyflwyno'r term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (nod craidd)

Byddai'r Bil drafft **yn cael gwared ar y termau presennol** Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac anawsterau a/neu anableddau dysgu, ac yn gosod y term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn eu lle. I raddau helaeth yn achos AAA, byddai hyn **sefydlu dull yn y gyfraith** sydd eisoes yn gyffredin ledled Cymru. Mae'r term ADY eisoes yn cael ei ddefnyddio mewn termau ymarferol a pholisi ers cyhoeddi'r canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion ym mis Tachwedd 2006, a sefydlu'r cynlluniau peilot yn 2009.

Mae'r **Bil drafft ar gyfer ADY yn cadw'r un diffiniad ag ar gyfer AAA**; h.y. a yw'r dysgwr yn cael llawer mwy o anhawster wrth ddysgu na'r mwyafrif yn ei grŵp oedran, neu a oes ganddo anabledd sy'n ei atal neu'n ei rwystro rhag manteisio ar yr addysg sydd fel arfer ar gael. **Yn ei hanfod, mae hwn yr un fath â'r diffiniad presennol o anawsterau a/neu anableddau dysgu ôl-16**.

Adeg y Bil drafft, roedd Llywodraeth Cymru yn rhagweld y byddai'r **un nifer o ddysgwyr** yn cael eu cyfrif fel rhai ag ADY fel sydd ag AAA ar hyn o bryd, o ganlyniad i ddefnyddio'r un diffiniadau. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai defnyddio'r un term ar gyfer pob dysgwr o dan 25 oed yn cynnig mwy o degwch ac yn tanlinellu cydlyniaeth y system newydd. Roedd hefyd yn credu y byddai'r term newydd, ADY, yn lleihau stigma ac yn dangos y bwriad i gefnu'n llwyr ar system yr oedd angen ei diwygio'n sylfaenol.

### Ystod oedran 0-25 (nod craidd)

Roedd y Bil drafft yn darparu ar gyfer **un system newydd ar gyfer ADY** cyn 16 ac ôl-16, yn lle'r systemau presennol ar gyfer AAA ac anawsterau a/neu anableddau dysgu. Mae'n amlinellu prosesau tebyg y mae'n rhaid i ysgolion a sefydliadau addysg bellach eu dilyn wrth asesu a oes gan ddisgyblion/myfyrwyr ADY a chreu Cynllun Datblygu Unigol (CDU) ar eu cyfer. Mae hyn yn golygu y byddai pob dysgwr ag ADY yn cael yr **un fath o gynllun statudol ni waeth beth fo'i oed** neu a yw yn y chweched dosbarth mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach.

Mae Llywodraeth Cymru yn dweud y byddai hyn yn rhoi dysgwyr mewn addysg bellach, sydd â Chynlluniau Dysgu a Sgiliau ar wahân ar hyn o bryd, mewn sefyllfa **fwy cyfartal** o'i gymharu â'u cyfoedion mewn ysgolion. Dywedodd hefyd y dylai **wella'r trosglwyddo** rhwng addysg ysgol ac addysg ôl-16. Newid sylweddol arall a gynigiwyd o safbwynt trosglwyddo oedd **rhoi'r cyfrifoldeb am ddarpariaeth arbenigol ôl-16 i awdurdodau lleol yn hytrach nag i Weinidogion Cymru**. Roedd Llywodraeth Cymru yn credu y byddai hyn yn annog awdurdodau lleol a darparwyr ôl-16 i weithio gyda'i gilydd i gynllunio a chyflwyno darpariaeth, yn ogystal â chymell awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer yr unigolyn ar ôl 16 oed mewn ffordd nad oes angen iddynt ar hyn o bryd o reidrwydd.

### Cynllun unedig (nod craidd)

Yn union fel yr oedd y Bil drafft yn gofyn am yr un math o gynllun (CDU) ar gyfer dysgwyr o bob oedran dan 25 oed, roedd hefyd yn gofyn **am yr un math o gynllun ar gyfer pob dysgwr ag ADY ni waeth pa mor ddifrifol yw'r anghenion**. O dan system o'r fath, ni fyddai'r gwahaniaeth rhwng datganiadau, a *Gweithredu gan yr Ysgol* neu *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy* yn bodoli bellach. Yn hytrach, byddai pob dysgwr ag ADY, yn ogystal â phob dysgwr 16-25 oed ag ADY, yn cael CDU. Fodd bynnag, byddai **gwahaniaethu o hyd** rhwng rhai achosion (mwy difrifol a chymhleth) lle y byddai awdurdodau lleol yn gyfrifol am gynnal y CDU, er mai'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach a fyddai'n gyfrifol yn y rhan fwyaf o achosion.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd y **cydbwysedd** rhwng nifer y dysgwyr y mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn eu cynnal yn **'debyg iawn'** i'r cydbwysedd presennol rhwng dysgwyr a gefnogir naill ai drwy *Gweithredu gan yr Ysgol* neu *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*, a'r rheini sydd â datganiad. Cadarnhawyd hyn gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau mewn **llythyr at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** (PDF 191KB) yn ystod ei waith craffu cyn deddfu ddiwedd 2015. Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor gan randdeiliaid yn awgrymu **nad oedd yn eglur** ym mha amgylchiadau y byddai'r awdurdod lleol, yn hytrach na'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach, yn **gyfrifol am CDU dysgwr** (gweler adran yn nes ymlaen yn y bennod hon).

Yn y Memorandwm Esboniadol drafft, roedd Llywodraeth Cymru yn crynhoi'r **manteision a ragwelir o gael cynllun unedig** ar gyfer pob math o ADY fel a ganlyn:

> *Effaith y darpariaethau hyn fydd **gwaredu'r anghysondebau a'r annhegwch** sy'n deillio o'r categorïau statudol ac anstatudol presennol o AAA, a'r gwahanol systemau ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach. Trwy gyflwyno cynllun unigol i gwmpasu sbectrwm eang o angen, bydd y system newydd yn **fwy hyblyg ac yn gallu ymateb yn well** gan y bydd yn haws i addasu CDU dros amser er mwyn adlewyrchu unrhyw newid o ran anghenion neu amgylchiadau. Yn fwyfwy, bydd yn **gwaredu'r ansicrwydd** ynghylch pryd y dylai datganiad gael ei wneud ac ar gyfer pwy ddylai gael ei wneud a'r ansicrwydd sy'n deillio o hyn. Bydd hefyd yn **sicrhau dilyniant** i ddysgwyr wrth iddynt drosglwyddo o'r ysgol i addysg bellach. (para 3.65) [fy mhwyslais i]*

## Cynigion ar gyfer proses gydweithredol integredig gydag ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol (amcan cyffredinol)

### Rhagor o gydweithredu (nod craidd)

Roedd y Bil drafft yn cynnwys **dyletswydd newydd ar gyrff iechyd** i gyflwyno unrhyw Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol a bennir mewn CDU, ac y maent wedi **cytuno** i'w darparu. Os bydd CDU yn nodi bod bwrdd iechyd yn gyfrifol am ryw agwedd ar ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, byddai hyn yn golygu na fyddai dyletswydd bellach ar ysgol, coleg neu awdurdod lleol i sicrhau'r ddarpariaeth honno. Fodd bynnag**, byddai angen bod y byrddau iechyd wedi cytuno** i wneud y ddarpariaeth honno fel rhan o'r broses o lunio'r CDU; ni fyddai awdurdodau lleol yn gallu rhwymo'r GIG i ddarparu rhywbeth i ddysgwr ag ADY nad oedd y byrddau iechyd wedi cytuno i'w ddarparu.

Mae'n arwyddocaol y rhoddwyd y **cyfrifoldeb terfynol ar gorff iechyd am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae wedi cytuno i'w darparu** wrth ddatblygu'r CDU. Mynegwyd pryderon yn ystod **ymgynghoriad Papur Gwyn 2014** (PDF 730KB) am **ba mor ymarferol** fyddai **gwneud awdurdodau lleol yn atebol** (drwy gyfrifoldeb terfynol am y CDU) **am ddarpariaeth gwasanaethau gan gyrff nad oes ganddynt unrhyw reolaeth drostynt**. Nododd Estyn na all awdurdodau lleol fod yn gyfrifol yn y pen draw am baratoi, cyflawni neu adolygu darpariaeth neu gymorth sy'n gyfrifoldeb ar y gwasanaeth iechyd.

Ceir cydnabyddiaeth yn eang bod cydweithio effeithiol o'r cychwyn cyntaf wrth adnabod ADY a datblygu CDU yn hanfodol i wella'r system. Mae'r Memorandwm Esboniadol drafft yn datgan y bydd CDU yn cynnwys cynllun gweithredu sy'n 'nodi'n glir pa asiantaeth sy'n gyfrifol am gyflenwi'r elfennau unigol cynllun gweithredu'. Mae **pennod 13 o'r Cod drafft** yn nodi'r dyletswyddau gorfodol ac yn rhoi arweiniad ar sut y dylai'r gwaith amlasiantaeth hwn ddigwydd wrth baratoi CDU.

Rhoddodd y Bil drafft ddyletswydd newydd ar gyrff iechyd i gydymffurfio â chais gan awdurdod lleol am wybodaeth, a'i fwriad oedd mynd i'r afael â phroblemau lle nad yw cyrff yn rhannu gwybodaeth gystal ag y gallent.

Er gwaethaf pwyslais penodol Llywodraeth Cymru ar fwy o gydweithio rhwng llywodraeth leol a chyrff iechyd, roedd y dystiolaeth a gafwyd yn ystod gwaith craffu cyn deddfu y Pwyllgor yn awgrymu y byddai'r mesurau arfaethedig yn annigonol gan fod y dyletswyddau ar gyrff iechyd yn annigonol (gweler adran yn nes ymlaen).

### Dyheadau uchel a gwell deilliannau (nod craidd)

Roedd y Bil drafft yn cynnwys dyletswydd ar awdurdodau lleol i **gadw golwg ar y trefniadau ar gyfer darpariaeth ddysgu ychwanegol** yn eu hardaloedd ac ystyried a yw'r rhain yn ddigonol. Wrth wneud hynny, byddai angen iddynt roi sylw i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y gellid ei threfnu o fewn rheswm gan gyrff eraill, fel byrddau iechyd. Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai hyn yn sicrhau bod safonau uchel yn bodoli drwyddi draw.

Mae'r Bil drafft yn cyflwyno dwy swydd statudol newydd: **Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol** mewn ysgolion a gynhelir a cholegau addysg bellach, a **Swyddog Meddygol Dynodedig neu** Swyddog Clinigol Dynodedig mewn byrddau iechyd.

## Cynigion ar gyfer system deg a thryloyw (amcan cyffredinol)

### System symlach sy'n achosi llai o wrthdaro (nod craidd)

Roedd y Memorandwm Esboniadol drafft yn cydnabod y daeth adolygiadau blaenorol i'r casgliad bod y system bresennol o ddatganiadau gan awdurdodau lleol â chefnogaeth statudol a darpariaeth anstatudol dan arweiniad ysgolion yn **'gymhleth, dryslyd a gwrthwynebol'**. Yn yr Ail Gynulliad, canfu'r **Pwyllgor Addysg, Sgiliau a Dysgu Gydol Oes** (PDF 262KB) y gall y broses fod yn wrthwynebol, yn rhwystredig, yn gymhleth a pheri straen i rieni, ac y gall fod yn system anghyfartal lle mae'r rhieni mwyaf uchel eu cloch ac abl yn gallu manteisio ar y system yn fwy nag eraill.

Roedd y Memorandwm Esboniadol drafft yn datgan y byddai **cyflwyno CDU statudol ar gyfer pob dysgwr ag ADY** yn 'gwaredu'r rhaniad artiffisial a dadleuol presennol' ac yn **'gwaredu un o brif achosion tensiwn sy'n achosi gwrthdaro'** (paragraff 3.77).

### Osgoi anghytundebau a'u datrys yn gynharach (nod craidd)

Roedd y Memorandwm Esboniadol drafft yn rhagweld:

> *Os bydd anghytundebau ynghylch CDU neu'r ddarpariaeth o'i fewn dylai'r system newydd ganolbwyntio ar sicrhau bod y mater yn cael ei ystyried a'i ddatrys ar y* ***lefel fwyaf leol bosibl****. (para 3.12) [fy mhwyslais i]*

Roedd y Cod drafft yn datgan:

> *Local authorities' focus should be on providing the parties with the opportunity to raise concerns at every stage of the process and* ***prevent problems from escalating****. (para 454) [fy mhwyslais i]*

Mae'r Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol **i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau** rhwng y plentyn/person ifanc a/neu'r rhiant, a'r ysgol/coleg neu'r awdurdod lleol. Byddai'n rhaid i awdurdodau lleol **sicrhau bod person annibynnol ar gael** i helpu i ddatrys yr

anghytundeb, yn ogystal ag esbonio i'r plentyn/person ifanc a/neu'r rhiant na fydd unrhyw drefniadau y maent yn cymryd rhan ynddynt yn effeithio ar eu hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru (o'i ailenwi).

Roedd y Bil drafft hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer **gwasanaethau eirioli annibynnol**, er mwyn darparu cyngor a chymorth i blentyn neu berson ifanc y maent yn gyfrifol amdano, gan gynnwys yr opsiwn o ddarparu cynrychiolaeth. Byddai'r gwasanaeth eirioli hwnnw hefyd yn ymestyn i **'gyfeillion achos'** a fydd yn cynrychioli'r plentyn/person ifanc. Byddai gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud rheoliadau ynglŷn â swyddogaeth y cyfeillion achos hyn.

### Hawliau clir a chyson i apelio (nod craidd)

Mae'r Bil drafft yn darparu ar gyfer ailenwi Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn **Tribiwnlys Addysg Cymru**. Mae adrannau 63-65 yn cadw'r trefniadau ymarferol presennol i raddau helaeth ar gyfer y Tribiwnlys. Nid oedd y Bil drafft yn cynnig unrhyw newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae'r Tribiwnlys yn gwrando ar apeliadau. Fodd bynnag, byddai'r **hawl i apelio** a roddwyd i blant a phobl ifanc mewn ysgolion a gynhelir ym mis Ionawr 2015 yn cael **ei hymestyn i bob** plentyn a pherson ifanc ag ADY **hyd at 25 oed**.

## Nodau craidd trawsbynciol

Roedd dau o ddeg nod craidd Llywodraeth Cymru yn berthnasol i bob un o'i thri amcan trosfwaol.

### Cod gorfodol (nod craidd)

O dan y Bil drafft, byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod ar gyfer ADY. Byddai angen **gosod hwn gerbron y Cynulliad Cenedlaethol** o dan broses debyg i'r Codau Derbyn i Ysgolion a Threfniadaeth Ysgolion. Byddai angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar ddrafft o'r Cod yn gyntaf.

Byddai statws y Cod o dan y trefniadau arfaethedig yn wahanol i'r Cod Ymarfer AAA presennol, a luniwyd yn 2002 ac a ddiwygiwyd yn 2004. Mae'r **Cod cyfredol** (sy'n parhau mewn grym) yn rhoi **cyngor ymarferol** i'r asiantaethau perthnasol wrth gyflawni eu swyddogaethau ac mae'n rhaid iddynt roi sylw iddo. Fodd bynnag, mae ei ragair yn datgan mai cyfrifoldeb yr asiantaethau perthnasol yw penderfynu sut yn union y maent yn cyflawni eu dyletswyddau statudol **yng ngoleuni'r canllawiau** [yn hytrach na glynu'n gaeth atynt.

Mae'n ymddangos bod y Cod newydd, fel y nodir yn y fersiwn ddrafft (PDF 987KB) a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru i ategu'r ymgynghoriad, yn **rhoi cyfarwyddyd mwy pendant**. Mae cyflwyniad y Cod drafft yn esbonio y bydd yn **gosod rhai gofynion absoliwt** ac y bydd rhwymedigaeth ar asiantaethau perthnasol i gydymffurfio ag unrhyw un o'r **darpariaethau gorfodol**; yn yr un modd, rhaid iddynt beidio â gwneud rhywbeth y mae'r Cod yn ei wahardd.

Yn y gorffennol, mae rhanddeiliaid wedi mynegi cefnogaeth ar gyfer cod gorfodol yn hytrach nag un sy'n wirfoddol neu'n ddewisol yn unig. Roedd 89% o'r ymatebwyr o blaid hyn yn ymgynghoriad y Papur Gwyn yn 2014.

### Cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy (nod craidd)

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i'r system newydd fabwysiadu dull gweithredu sy'n **canolbwyntio'n fwy ar y person**, gan arwain at fwy o gyfranogiad gan y dysgwyr eu hunain.

Roedd y Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o dan y ddeddfwriaeth roi sylw i safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn neu'r person ifanc a'i rieni; eu cyfranogiad yn y broses o wneud penderfyniadau; a'u mynediad at y wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen er mwyn galluogi'r cyfranogiad hwn.

## Gwaith craffu cyn deddfu gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Gwnaeth Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Pedwerydd Cynulliad waith craffu cyn deddfu ar y Bil. Roedd hyn yn cynnwys clywed gan randdeiliaid sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd yr effeithir arnynt gan AAA/ADY a chan gynrychiolwyr llywodraeth leol ac iechyd sy'n gysylltiedig â gweithredu unrhyw newidiadau. Hefyd, holodd y Pwyllgor y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, a hynny ar sail y dystiolaeth a gafodd.[31]

Ar y cyfan, roedd y Pwyllgor yn croesawu'n fawr y bwriad i ddiwygio'r system, ond roedd yn gweld bod **llawer o waith i'w wneud** i fynd i'r afael â **llawer o feysydd o ansicrwydd** cyn i Fil gael ei gyflwyno'n ffurfiol i broses ddeddfwriaethol y Cynulliad.

Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn gadarnhaol ynghylch nodau ac amcanion y Bil drafft ar y cyfan. Fodd bynnag, codwyd rhai pryderon gan bob ymatebydd ynghylch yr agweddau ymarferol ar y diwygiadau arfaethedig.

Yn ei lythyr dilynol at y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd (PDF 443KB), tynnodd y Pwyllgor sylw at y materion a'r pwyntiau allweddol a ddeilliodd o'i waith craffu ac anogodd Lywodraeth Cymru i gryfhau'r ddeddfwriaeth mewn nifer o feysydd a restrir isod. Hefyd ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd (PDF 210KB) yn benodol ynghylch gwaith amlasiantaeth. Cyhoeddodd y Gweinidogion ar y pryd ymateb ar y cyd ar 19 Ionawr 2016 (PDF 219KB).

### Gwaith amlasiantaeth

- Roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod darpariaeth **annigonol** yn y Bil drafft ar gyfer cydweithio gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Tynnodd y Pwyllgor at **anghydbwysedd canfyddedig** rhwng y cyfrifoldebau sydd ar lywodraeth leol ac ar gyrff iechyd, a daeth i'r casgliad bod angen rhoi dyletswyddau cadarnach ar gyrff iechyd.
- Roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod pa mor hanfodol yw gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig rhwng addysg ac iechyd, er mwyn gallu cyflawni'r gwelliannau a ddymunir. Dywedodd y byddai'n ystyried pa gamau eraill y gellid eu cymryd, naill ai yn y ddeddfwriaeth ei hun neu drwy ddulliau eraill, er mwyn hwyluso gwaith partneriaeth o'r fath, gan gynnwys sut y gellid datrys unrhyw anghydfod rhwng awdurdodau lleol a chyrff iechyd.

[31] Gweler drawsgrifiadau o gyfarfodydd y Pwyllgor ar 18 a 26 Tachwedd 2015 am fwy o wybodaeth.

## Manteision a heriau system gymorth graddedig

- Er bod cytundeb cyffredinol y gallai cynlluniau datblygu unigol (CDU) sydd ar gael i bawb arwain at fwy o gysondeb, cafwyd **galwad o blaid cadw manteision dull gweithredu graddedig**, a ddarperir ar hyn o bryd gan y dull tair haen o ymyrraeth. Diben hyn yw sicrhau bod cymorth mwy dwys yn parhau i fod ar gael i'r rhai ag anghenion mwy cymhleth a difrifol a lleddfu pryderon ynghylch gwanhau'r ddarpariaeth.
- Roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod angen **mwy o eglurder ynghylch pwy yn union fydd yn gyfrifol am nodi anghenion, llunio a chynnal CDU**, h.y. pryd y bydd hyn yn gyfrifoldeb i'r ysgol ac ym mha amgylchiadau y gellir ei gyfeirio i'r awdurdod lleol.
- Nodwyd hefyd fel problem bosibl y **gofynion** sylweddol sy'n debygol o gael eu gosod ar y rôl **Cydlynydd ADY statudol newydd**, yn ogystal â'r **angen am dempled ar gyfer CDU** er mwyn sicrhau eu bod yn gyson, yn dryloyw ac yn gludadwy.
- Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at y ffaith nad y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n darparu ar gyfer system raddedig bresennol o gymorth, ond yn hytrach y Cod Ymarfer cyfredol. Dywedodd y bydd y Cod newydd yn gallu gosod gofynion gorfodol ac y bydd yn rhoi sylw i'r mater hwn.
- Hefyd, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n ystyried y sylwadau ynghylch yr ansicrwydd am y modd y byddai cyfrifoldebau'n cael eu rhannu, yr angen am dempled CDU a rôl y Cydlynydd ADY. Ychwanegodd y byddai rhagor o fanylion yn y Cod newydd.

## Datrys anghydfodau a chreu system decach, fwy tryloyw

- Awgrymodd tystiolaeth y gellid gwneud mwy i **gryfhau rôl a phwerau'r Tribiwnlys** (a elwir ar hyn o bryd yn Dribiwnlys AAA Cymru, ond y bwriedir ei ailenwi yn Dribiwnlys Addysgol Cymru). Roedd hyn yn cynnwys y gallu i ddelio â throseddwyr cyson a diffyg gweithredu ar ôl penderfyniadau tribiwnlysoedd, ac i fynd i'r afael â methiannau neu ddiffyg cydymffurfio gan gyrff iechyd.
- Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n ymchwilio i sut y gall y Cod newydd ei gwneud yn ofynnol i wella'r drefn o ddatrys anghytundeb a hyrwyddo hynny, ac mae wedi gofyn i'r grŵp o bartneriaid allanol sy'n gysylltiedig â datblygu'r Cod ystyried hyn.

## Sefydlu system 0-25 oed

- Canfu'r Pwyllgor fod ffocws y Bil drafft, er gwaethaf ei fwriad i sefydlu system 0-25 oed, **mewn gwirionedd i raddau helaeth iawn ar oed ysgol statudol**. Awgrymodd tystiolaeth gan randdeilaid ei bod yn ymddangos bod manylion am ddarpariaeth benodol ar ddau ben y sbectrwm oed ar goll yn y Bil drafft a'r Cod ADY drafft.
- –Ar gyfer y **blynyddoedd cynnar**, cafwyd galwadau i'r 'trothwy' ar gyfer y diffiniad o ADY fod yn fwy cyfannol a **chael ei ehangu i ganolbwyntio ar ddatblygu a chwarae**. Ar gyfer **cyfnod ôl-16**, teimlwyd mai esgeulustod oedd y diffyg cyfeiriad at sut y darperir ar gyfer ADY mewn lleoliad ac eithrio coleg, er enghraifft diffyg cyfeiriad at **ddysgu seiliedig ar waith megis prentisiaethau**.
- Roedd Llywodraeth Cymru **yn anghytuno â chasgliad y Pwyllgor** bod y Bil drafft yn canolbwyntio'n bennaf ar ysgolion. Dywedodd fod darpariaeth benodol lle bo angen yn y Bil drafft ar gyfer y blynyddoedd cynnar ac addysg ôl-16, ond bod llawer o'r darpariaethau yn gymwys i bawb heb unrhyw gyfeiriad at grŵp oedran neu leoliad. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sylwadau'r Pwyllgor wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth cyn ei chyflwyno.

### Heriau o ran symud i'r system newydd

- Yn ychwanegol at y pedwar maes a amlinellir uchod, mae'r Pwyllgor hefyd wedi nodi rhai heriau posibl mewn perthynas â symud i'r system newydd. Mae'r rhain yn cynnwys **goblygiadau ariannol** y diwygiadau. Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen gwneud y rhain yn fwy eglur pan fydd Bil yn cael ei gyflwyno'n ffurfiol.
- Materion eraill a godwyd yw **gallu'r gweithlu** i weithredu'r newidiadau, gofynion hyfforddi staff, ac ystyriaeth y Bil drafft o'r iaith Gymraeg.
- Yn ei ymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru nad yw'r materion hyn yn uniongyrchol berthnasol i ddarpariaethau'r Bil ei hun ond cytunodd eu bod yn amlwg yn hanfodol i roi'r fframwaith deddfwriaethol arfaethedig ar waith yn llwyddiannus.
- O ran costau, roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd y cyfnod pontio yn heriol ac mae wedi ymrwymo i ddarparu cymorth ariannol i sefydliadau sy'n rhoi'r system newydd ar waith.

## Ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodeb o'r ymatebion i'w **hymgynghoriad ar y Bil drafft** ar 1 Gorffennaf 2016. Hefyd cyhoeddodd bob un o'r ymatebion unigol. Cafwyd cyfanswm o **263 o ymatebion**, ond roedd 31 o ymatebion union yr un fath gan ymgyrch ynghylch **y Gymraeg** a 73 gan ymgyrch ynghylch materion sy'n effeithio ar **ddysgwyr byddar a dall**.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys **pum cwestiwn caeedig yn gofyn i gyfranogwyr a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â datganiad ynghylch a fydd agwedd ar y Bil drafft yn effeithiol, neu nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno**. Mae'r canlyniadau yng nghrynodeb Llywodraeth Cymru, sydd hefyd yn cynnwys y gyfran na atebodd y cwestiwn, yn dangos **bod mwy o ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiadau nag yn cytuno** yn achos pob un o'r pum cwestiwn caeedig. Mae'r tablau isod yn rhoi manylion o ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r ymatebion. Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi ychwanegu colofnau yn dangos y dadansoddiad o'r rhai a ddywedodd eu bod yn cytuno neu'n anghytuno.

**Tabl 11: Ymatebion i gwestiwn 1 yr ymgynghoriad**

A ydych yn cytuno bod y diffiniadau o Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) a nodir yn y Bil drafft yn adlewyrchu'n briodol y ffocws a ddymunwn ar anghenion addysgol ac a ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn delio'n iawn â'r ystod oedran dan sylw?

| % o gyfanswm yr ymatebion | | | | % y rheini a ddywedodd eu bod yn cytuno neu'n anghytuno | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Heb ateb | Cytuno | Anghytuno |
| 34% | 41% | 19% | 6% | 45% | 55% |

**Tabl 12: Ymatebion i gwestiwn 2 yr ymgynghoriad**

A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn creu fframwaith cyfreithiol cadarn ar gyfer paratoi, cynnal a chadw ac adolygu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau)?

| % o gyfanswm yr ymatebion | | | | % y rheini a ddywedodd eu bod yn cytuno neu'n anghytuno | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Heb ateb | Cytuno | Anghytuno |
| 23% | 53% | 17% | 7% | 30% | 70% |

**Tabl 13: Ymatebion i gwestiwn 3 yr ymgynghoriad**

A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn helpu i sicrhau bod buddiannau plant a phobl ifanc ag ADY yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo?

| % o gyfanswm yr ymatebion | | | | % y rheini a ddywedodd eu bod yn cytuno neu'n anghytuno | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Heb ateb | Cytuno | Anghytuno |
| 30% | 47% | 16% | 7% | 39% | 61% |

**Tabl 14: Ymatebion i gwestiwn 4 yr ymgynghoriad**

A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn creu sylfaen i wella'r ffordd y mae asiantaethau yn cydweithio i ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY?

| % o gyfanswm yr ymatebion | | | | % y rheini a ddywedodd eu bod yn cytuno neu'n anghytuno | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Heb ateb | Cytuno | Anghytuno |
| 22% | 49% | 22% | 7% | 31% | 69% |

**Tabl 15: Ymatebion i gwestiwn 5 yr ymgynghoriad**

A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn cynnig fframwaith priodol i helpu i osgoi a datrys anghytundeb, a bod sylfaen gadarn i'r darpariaethau'n ymwneud ag apelio?

| % o gyfanswm yr ymatebion | | | | % y rheini a ddywedodd eu bod yn cytuno neu'n anghytuno | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Heb ateb | Cytuno | Anghytuno |
| 20% | 46% | 24% | 10% | 30% | 70% |

Ffynhonnell ar gyfer tablau 11-15: Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad – Crynodeb o'r ymatebion, Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), Gorffennaf 2016, t 8-20

Rhagflaenodd Llywodraeth Cymru ei chrynodeb o'r ymatebion i bob un o'r cwestiynau hyn drwy gyfeirio at y gefnogaeth i egwyddorion cyffredinol y Bil drafft. Dywedodd hefyd nad oedd y **naratif** a gyflwynwyd gan ymatebwyr i gefnogi eu hatebion i'r cwestiynau caeedig **yn cyfleu cymaint o anghytundeb** ag y mae'r canlyniadau yn ei awgrymu.

Yn ei ddatganiad ar 1 Gorffennaf 2016, ochr yn ochr â chyhoeddi canlyniad yr ymgynghoriad, dywedodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Alun Davies:

> *Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r adborth o'r rhaglen ymgysylltu eang a oedd yn cyd-fynd ag ef yn* ***gefnogol iawn o'r egwyddorion*** *sy'n sail i'n diwygiadau. Fodd bynnag, codwyd rhai pryderon hefyd wrth gwrs. Roedd rhai yn adlewyrchu dymuniad yr ymatebwyr i weld rhagor o fanylder, ac eraill yn* ***dangos camddealltwriaeth o'n bwriadau*** *neu effaith ymarferol ddisgwyliedig ein cynigion. Roedd rhai hefyd yn mynegi* ***pryderon am agweddau penodol*** *ar y cynigion. Cafodd yr holl adborth a ddaeth i law ei ystyried yn ofalus a'i ddefnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu'r ddeddfwriaeth, y Cod ADY drafft ac, yn bwysicach, y Rhaglen Trawsnewid ADY ehangach. [fy mhwyslais i]*

Mae llawer o'r materion sy'n codi yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yr un fath â'r rhai sy'n codi o waith craffu cyn deddfu y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'i gyflwyniad dilynol i Lywodraeth Cymru. Ceir crynodeb isod o'r pwyntiau a godwyd yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Bil drafft.

- Cafodd y **termau** 'Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)' a 'Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY)' **eu croesawu'n gyffredinol**. Mynegwyd rhai pryderon y gallent fod yn agored i ddehongliad ac y gellid eu defnyddio mewn modd anghyson (er mai dyma'r un diffiniadau ag a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer AAA a CSC).
- Cafodd yr egwyddor o **un fframwaith ar gyfer 0-25 oed** ei chroesawu'n gyffredinol a'r farn oedd y byddai'n helpu i drosglwyddo'n effeithiol rhwng cerrig milltir allweddol. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr yn gyffredinol **yn gofyn am fwy o fanylion ac eglurhad**, yn enwedig sut y byddai'r trefniadau'n gweithio rhwng 0 a 3 oed a rhwng 16 a 25 oed, ac yn cwestiynu pam nad yw'n ymddangos bod y fframwaith arfaethedig yn gymwys i ddysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau, nac addysg uwch.
- Cafwyd **cefnogaeth gyffredinol** i'r egwyddor o **broses gynllunio unedig**, er bod **galw am fwy o eglurder** a manylion.

– Roedd gan yr ymatebwyr safbwyntiau gwahanol ynghylch a fyddai'r Bil drafft yn cyflwyno fframwaith cyfreithiol clir a chadarn i gefnogi'r broses CDU. Roedd rhanddeiliaid yn galw am **ddiffiniadau a meini prawf clir** ar gyfer paratoi, cynnal ac adolygu CDU er mwyn sicrhau cysondeb.

– Roedd yr ymatebwyr o blaid datblygu **templed ar gyfer CDU** er mwyn sicrhau eu cysondeb ledled Cymru.

– Tynnwyd sylw at rai **canlyniadau anfwriadol** yn sgil i symud i ffwrdd o ddatganiadau AAA â chefnogaeth gyfreithiol ar gyfer [12,000] o ddysgwyr â'r anghenion mwyaf difrifol a chymhleth i system lle mae gan bob un o'r [105,000] o ddysgwyr ag AAA/ADY yr hawl i gynllun statudol. Rhybuddiodd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru am **y posibilrwydd o wanhau'r ddarpariaeth i ddysgwyr ag anghenion difrifol a chymhleth** drwy geisio sicrhau bod y system yn hyblyg ac yn darparu ar gyfer dysgwyr ag anghenion llai difrifol.

– Mynegodd yr ymatebwyr bryderon ynghylch **mynediad at wasanaethau arbenigol** ac a fyddai ysgolion yn gwybod pryd i fanteisio arnynt, yn enwedig ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymhleth a/neu anghenion anfynych fel nam ar y synhwyrau.

– Cafwyd croeso cyffredinol i gyflwyno **rôl statudol y Cydlynydd ADY**, ond tynnodd yr ymatebwyr sylw at bwysigrwydd cymwysterau a hyfforddiant priodol. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu am **feichiau gweinyddol** y rôl ac a allai'r rhain effeithio ar allu Cydlynydd ADY i addysgu.

– Cafwyd galwadau i'r Cod roi cyfarwyddyd cliriach ynghylch sut gallai **gwasanaethau iechyd ac addysg gydweithio'n well**. Cafwyd **'sylwadau cryf' o blaid rhoi dyletswydd ar asiantaethau iechyd** i asesu a sicrhau darpariaeth pan fydd hynny'n angenrheidiol a/neu'n ofynnol, ac i roi'r awdurdodaeth i'r Tribiwnlys eu dwyn i gyfrif.

– Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r pwyslais ar **osgoi a datrys anghytundebau yn gynnar** ond roeddent yn gofyn am sicrwydd y byddai gwasanaethau eiriolaeth yn parhau i fod yn **annibynnol** ac yn cael eu rhedeg ar wahân oddi wrth awdurdodau lleol.

– Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn mynegi pa mor bwysig yw cael yr **adnoddau a'r capasiti angenrheidiol** i roi'r system newydd ar waith, a chwestiynwyd y syniad y byddai'r diwygiadau yn **niwtral o ran cost**. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn credu nad yw Llywodraeth Cymru wedi llwyr sylweddoli beth fydd effaith y newidiadau ar lwyth gwaith a chyllid.

Fel y nodwyd uchod, cafwyd **dau ymateb ymgyrch** ynghylch **y Gymraeg** a materion sy'n effeithio ar **ddysgwyr byddar a dall**.

– Roedd yr ymatebion ynghylch y Gymraeg yn nodi **diffyg cyfeiriad yn y Bil drafft** at egwyddorion ***Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011***, sy'n datgan na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Galwodd rhanddeiliaid am ofyniad statudol ar wyneb y Bil i sicrhau bod pob cam yn y broses **ar gael yn Gymraeg a Saesneg**.

– Mynegodd yr ymgyrch gan y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (NDCS) a Sense Cymru bryder y byddai rhannau o'r Bil drafft a'r Cod drafft yn **tanseilio'r system a hawliau plant a phobl ifanc**. Dywedodd yr ymatebion fod yn **rhaid i'r trefniadau newydd ar gyfer asesu a chynllunio cymorth weithio'n effeithiol ar gyfer dysgwyr byddar a dall**, a bod rhanddeiliaid yn pryderu y gallai hyn beidio â digwydd oherwydd bod eu hanghenion yn anfynych ac yn arbenigol eu natur.

# 8. Diwygiadau yn Lloegr

Gwnaeth y ***Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014*** newidiadau i'r ddarpariaeth AAA yn Lloegr. Cyhoeddwyd **Special Educational Needs and Disability Code of Practice: 0-25 years** diwygiedig ym mis Ionawr 2014 a daeth i rym ar 1 Medi 2014.

Mae'r newidiadau yn Lloegr yn **dwyn ynghyd ymyriadau addysgol ag iechyd a gofal**, fel y darperir ar gyfer y rhain mewn un cynllun. Maent hefyd yn integreiddio'r ddwy system cyn 16 ac ôl-16 flaenorol yn **system 0-25 oed**. **Mae rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol a chyrff iechyd i gydweithio** er mwyn diwallu anghenion pobl ifanc. Dywedodd Llywodraeth y DU y byddai **rhieni a phlant yn cael eu cynnwys llawer mwy** yn y broses gwneud penderfyniadau.

Mae papur briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016, ***Special Educational Needs: support in England***, yn rhoi trosolwg defnyddiol o'r newidiadau yn Lloegr o fis Medi 2014, y drefn atebolrwydd a sefydlwyd i archwilio'r trefniadau newydd, a rhywfaint o waith ymchwil cynnar ar eu heffeithiolrwydd.

Mae **gwefan Llywodraeth y DU** hefyd yn cynnwys gwybodaeth am SEND yn Lloegr.

## Beth sydd wedi newid?

Mae **datganiadau AAA** a all gwmpasu dysgwyr hyd at 19 oed yn **cael eu disodli gan gynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal**, a all fod ar waith hyd at 25 oed os yw'r person ifanc yn dal mewn addysg neu hyfforddiant. O 1 Medi 2014, ni chaiff datganiad ei roi i unrhyw ddysgwyr newydd a bydd y rhai sydd eisoes wedi cael datganiad yn cael eu trosglwyddo'n raddol i gynllun Addysg, Iechyd a Gofal erbyn 31 Mawrth 2018. Mae cynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal yn **gosod rhwymedigaethau statudol ar awdurdodau lleol a chyrff iechyd i gydweithredu** er mwyn diwallu anghenion y person ifanc. Mae llawer o'r gofynion cyfreithiol ar gyfer asesiadau Addysg, Iechyd a Gofal yr un fath â'r gofynion ar gyfer datganiadau neu'n **debyg iddynt**.

***Mae Gweithredu gan yr Ysgol*** a ***Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*** yn cael eu **disodli** gan system gymorth raddedig yn yr ysgol i ddysgwyr y mae eu hanghenion yn golygu nad oes angen cynllun Addysg, Iechyd a Gofal arnynt. Gelwir y system newydd yn **'Cymorth AAA'**. Mae hyn yn **wahanol i'r hyn a gynigir yng Nghymru** a fyddai'n rhoi'r un math o gynllun i bob dysgwr ag ADY: y Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd CDU i bob dysgwr ag ADY yn gwaredu un o brif achosion tensiwn[32] (rhwng y rhai sy'n cael darpariaeth â chefnogaeth statudol a'r rhai nad ydynt yn cael y ddarpariaeth hon).

Mae tystiolaeth anecdotaidd a gafwyd gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Pedwerydd Cynulliad yn ystod gwaith craffu cyn deddfu ar y Bil drafft, yn ogystal â **sylw yn y cyfryngau**, yn awgrymu y bu **goblygiadau ariannol sylweddol yn Lloegr** yn sgil darparu cynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal i bob dysgwr a oedd â datganiadau yn flaenorol. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig darparu cynlluniau statudol i bob un o'r 105,000 o ddysgwyr ag ADY, nid dim ond y 12,000 sydd â datganiadau ar hyn o bryd.

Mae rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol bellach i ddatblygu a chyhoeddi **'Cynnig Lleol'**, sy'n nodi mewn un man wybodaeth am y **ddarpariaeth y maent yn disgwyl iddi fod ar gael ym maes addysg, iechyd a gofal cymdeithasol** i blant a phobl ifanc sydd ag AAA neu sy'n anabl yn eu hardal.

---

[32] Llywodraeth Cymru, ***Memorandwm Esboniadol drafft, Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)***, 2015, paragraff 3.77

Mae hyn yn cynnwys y rhai nad oes ganddynt gynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal ond sy'n cael Cymorth AAA. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnwys ac ymgysylltu â phobl ifanc wrth baratoi eu Cynnig Lleol.

## Pa effaith y mae'r diwygiadau yn ei chael?

Mae **papur briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin** (Mawrth 2016) yn crynhoi rhywfaint o'r ymchwil gynnar i effeithiolrwydd y system ddiwygiedig.

Roedd hyn yn cynnwys adroddiad gan Driver Youth Trust ym mis Hydref 2015, ***Joining the Dots***, yn dadansoddi effaith y diwygiadau yn y flwyddyn ers eu cyflwyno. Nododd yr adroddiad:

> *Many examples of high-quality provision have emerged in response [to the reforms]. These are often driven by strong partnerships, well-managed change and skilled, impassioned leadership. However, at present provision is 'fragmented' leading to difficulties in sharing information and knowledge. As a result, many children and young people do not receive the support they deserve and gaps in the system lead to wasted resources as well as disconnected or duplicated services. Ultimately students, parents, schools and sector organisations are finding it difficult to navigate the new system and this is standing in the way of the reforms' success. [fy mhwyslais i]*

Ffynhonnell arall a enwyd gan Lyfrgell Tŷ'r Cyffredin oedd y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol, a nododd yn ei **hadroddiad ysgol yn 2015** (PDF 543KB):

> *[Parents] believe* ***services are deteriorating*** *and are increasingly locked in lengthy and traumatic legal action to get their children's needs met. The new SEN system promises to make things better, but one year on, the process itself is taking too long and facing* ***clear challenges in the transition process*** *between the two systems. Promisingly, parents and young people who have received EHC plans are more satisfied, although the number of plans being issued is lower, meaning we could see an even bigger increase in tribunal figures. [fy mhwyslais i]*

## Y gwersi i Gymru

O ystyried bod Lloegr eisoes wedi dechrau ar y broses o ddiwygio'r system AAA, mae gan Gymru y cyfle i ddysgu gwersi'r broses weithredu yno er mwyn llywio ei phroses drawsnewid ei hun. Ar 1 Tachwedd 2016, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **adroddiad Lee Scott, y cyn-Tsar 'Anghenion Arbennig'**, sy'n adolygu profiadau plant a phobl ifanc ag AAA ac Anableddau yn y system ysgolion a cholegau. Tynnwyd sylw at y pum prif ganfyddiad yn adroddiad Lee Scott gan y **National Association for Special Educational Needs (NASEN)**:

- Mae'n hanfodol cyfathrebu'n effeithiol â theuluoedd, yn ogystal â rhwng asiantaethau.
- Dylai'r system ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau weithredu mewn modd mwy cyson ledled y wlad.
- Dylai ysgolion a cholegau ddarparu cymorth ym maes anghenion iechyd sylfaenol, fel meddyginiaeth.
- Dylai fod yn fwy eglur sut y caiff cyllid ym maes Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau ei ddefnyddio.

– Gellid gwneud mwy yn lleol i gefnogi pobl ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau i gymryd rhan mewn hyfforddiant ac i gael gwaith.

# 9. Y camau nesaf ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru

Ar 14 Gorffennaf 2016, dywedodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Alun Davies, ei fod yn disgwyl **cyflwyno'r Bil cyn toriad y Nadolig** a'i fod yn bwriadu cyhoeddi fersiwn nesaf y Cod ADY cyn gynted â phosibl yn ystod y broses graffu. Mae hyn yn dilyn gwaith Grŵp Datblygu Cynnwys y Cod ADY, a fu'n gweithio tan fis Ebrill 2016.

Cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at Raglen Trawsnewid ADY ehangach a fydd yn helpu partneriaid cyflenwi i symud yn effeithiol o'r system bresennol i'r drefn newydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Gweithredu Strategol ADY, sy'n gyfrifol am gynllunio ar gyfer pontio.

Mae rhanddeiliaid yn aros yn eiddgar am gyflwyno'r Bil, a byddant yn edrych ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn adolygu (os o gwbl) y cynigion sydd yn y Bil drafft, yn dilyn ei hymgynghoriad ei hun a gwaith craffu cyn ddeddfu y Cynulliad.

Mae SNAP Cymru, sef elusen sy'n gweithio gyda theuluoedd i blant a phobl ifanc sydd ag AAA, yn hysbysu nad yw'r system bresennol yn gynhwysol o gwbl. Dywed fod teuluoedd yn aml yn teimlo wedi'u cau allan o brosesau sydd, yn eu barn hwy, yn ddyrys, biwrocrataidd ac aneffeithlon. Mae SNAP yn croesawu'r agenda newydd o ddiwygio a thrawsnewid. Meddai Prif Weithredwr SNAP, Denise Inger:

> *We need this new Bill to provide a statutory legislative framework which will enable the delivery of effective multi-agency provision within education and we are optimistic for a new Code of Practice which will be mandatory. It is the* ***collective interpretation, implementation and robust monitoring*** *that will make the difference for children and young people in Wales.*
>
> *Families need independent and expert advice, information and explanation to participate and engage in making informed choices. Now, more than ever, there is a need for this to be more than arm's length away from local authority, health board and education and training providers. The Bill needs to be stronger than its draft form in making sure that not only do local authorities make arrangements for this to be available but that* ***disagreement avoidance and dispute resolution services are independent****.*

Mae **Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA)** o'r farn bod ethos y Bil yn gadarnhaol ond bod llawer o waith i'w wneud o hyd i sicrhau deddfwriaeth sy'n effeithiol yn ymarferol. Meddai Catherine Lewis, y Swyddog Datblygu ar gyfer Plant a Chadeirydd TSANA yng Nghymru, wrth amlinellu'r blaenoriaethau allweddol:

> *A* ***wide ranging definition of learning should be adopted that spans the whole 0-25 age*** *range which recognises the role of play in learning and the importance of learning skills for life. Learning begins from birth and there should be more detail on how the needs of children in their early years (age 0-3) are to be supported. Clarity is also needed on how the new system will work in further education colleges. We are disappointed that the reforms do not include young people undertaking work based learning such as apprenticeships.*

*The duty placed on health under the draft Bill was weak.* ***Multi-agency working*** *should be underpinned by local protocols between health, social services and education. Finally, a* ***mandatory template for Individual Development Plans*** *(IDPs) would ensure that the IDP is consistent and portable, legally accountable and transparent across Wales.*

## Proses ddeddfwriaethol y Cynulliad

Ar ôl ei gyflwyno, bydd un o bwyllgorau'r Cynulliad yn craffu ar y Bil ac yn cyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y ddeddfwriaeth. Bydd hefyd yn cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Cyllid. Bydd y Bil yn cael ei ddiwygio mewn Cyfnod Pwyllgor arall ac wedi hynny gan holl Aelodau'r Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn, cyn i bleidlais derfynol gael ei chynnal i basio'r ddeddfwriaeth ai peidio.

Mae'r Gweinidog wedi dweud ei fod yn gobeithio y bydd yn cael ei basio gan y Cynulliad ac yn derbyn **Cydsyniad Brenhinol erbyn hydref 2017**. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **amlinelliad o'r amserlenni arfaethedig ar gyfer gweithredu** ym mis Gorffennaf 2015, ar yr un pryd â'r Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Roedd yr amserlen yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl y byddai'r holl drefniadau newydd **yn cael eu gweithredu'n llawn o fewn tair blynedd academaidd ar ôl rhoi Cydsyniad Brenhinol** i'r ddeddfwriaeth.